# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych | Dyddiad: | 3 Chwefror 2022 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | rhian.evans@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH, DYDD GWENER, 11 CHWEFROR 2022** am **11.00 am TRWY GYFRWNG FIDEO GYNHADLEDD**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddinat personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Siroedd Conwy a Dinbych a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2021 (copi'n amgaeëdig).

**5 ASESIAD LLES CONWY A SIR DDINBYCH 2022 - TROSOLWG O'R YMGYSYLLTU** (Tudalennau 13 - 22)

Ystyried adroddiad gan Swyddog Cefnogi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (copi'n amgaeëdig) sy'n disgrifio'r dull ymgysylltu a ddefnyddiwyd i lywio'r Asesiad Lles.

**6 ASESIAD LLES CONWY A SIR DDINBYCH 2022** (Tudalennau 23 - 82)

Ystyried adroddiad gan Swyddog Cefnogi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (copi'n amgaeëdig) sy'n cyflwyno Asesiad Llesiant Drafft 2022 y Cyd-Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Pwyllgor i'w adolygu fel rhan o'r broses ymgynghori, ac sydd hefyd yn ceisio argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas a'i gynnwys a'i ganfyddiadau.

**7 ADBORTH O'R GWEITHDY**

Derbyn adroddiad ar lafar am y casgliadau y daethpwyd iddynt yng ngweithdy'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd cyn y cyfarfod.

**8 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR** (Tudalennau 83 - 84)

Derbyn ac ystyried blaenraglen waith arfaethedig y Cyd-Bwyllgor (copi'n amgaeëdig).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**
Jeanette Chamberlain-Jones
Geoffrey David Corry
Meirick Lloyd-Davies
Rachel Flynn
Chris Hughes
Hugh Irving
Ifor Lloyd
Melvyn Mile
Donald Milne
Elizabeth Roberts
Arwel Roberts
Harry Saville
Nigel Smith (Is-Gadeirydd)
Graham Timms (Cadeirydd)
Joan Vaughan
David Williams

**COPIAU I'R:**
Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Siroedd Conwy a Dinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br><br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

**LOCAL GOVERNMENT ACT 2000**

**Code of Conduct for Members**

## DISCLOSURE AND REGISTRATION OF INTERESTS

| | |
|---|---|
| I, *(name)* | |
| a *member/co-opted member of<br>*(*please delete as appropriate)* | **Joint Overview & Scrutiny Committee for the Conwy & Denbighshire Public Services Board** |

**CONFIRM** that I have declared a ***personal / personal and prejudicial** interest not previously declared in accordance with the provisions of Part III of the Council's Code of Conduct for Members, in respect of the following:-
*(*please delete as appropriate)*

| | |
|---|---|
| Date of Disclosure: | |
| Committee (*please specify*): | |
| Agenda Item No. | |
| Subject Matter: | |
| Nature of Interest:<br>*(See the note below)** | |
| Signed | |
| Date | |

*Note: Please provide sufficient detail e.g. 'I am the owner of land adjacent to the application for planning permission made by Mr Jones', or 'My husband / wife is an employee of the company which has made an application for financial assistance'.

**CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd yn via Video Conference, Dydd Gwener, 11 Mehefin 2021 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, Cyngor Sir Ddinbych (CSDd)
Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Rachel Flynn, Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Chris Hughes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)
Y Cynghorydd Hugh Irving, Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Ifor Lloyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Melvyn Mile, Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Don Milne, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Arwel Roberts, Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Liz Roberts, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Nigel Smith (Is-gadeirydd), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Cynghorydd Graham Timms (Cadeirydd), Cyngor Sir Ddinbych

**HEFYD YN BRESENNOL**

Hannah Edwards, Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (CBSC)
Rhian Evans, Cydlynydd Craffu (CSDd)
Karen Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (CSDd)
Dawn Hughes, Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau (CBSC)
Fran Lewis, Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC)
Nicola Kneale – Rheolwr Cynllunio Strategol (CSDd)

**1 PENODI CADEIRYDD**

Gan mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf o Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn dilyn Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdodau, gofynnodd y Cydlynydd Craffu (Rhian Evans) am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Cydbwyllgor ar gyfer y tymor 2021/2023, a dywedodd wrth y Pwyllgor mai tro Cyngor Sir Ddinbych oedd hi i gadeirio'r cyfarfod yn unol â Chylch Gorchwyl y Cyngor.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Brian Cossey am ei waith caled yn sefydlu ac yn arwain y Pwyllgor yn ystod ei ddeiliadaeth a chroesawyd y Cynghorydd Don Milne i gymryd ei le fel un o gynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Croesawyd y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies i'r pwyllgor i gymryd lle'r Cynghorydd Peter Scott fel un o gynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych.

Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Graham Timms. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.

Felly:

***PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Graham Timms yn gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych dros flynyddoedd bwrdeistrefol 2021/11 a 2022/23.***

**2 PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Is-gadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Dywedwyd wrth yr aelodau ei bod yn ofynnol yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor ethol yr Is-gadeirydd o blith aelodau'r awdurdod lleol nad yw Cadeirydd y Pwyllgor wedi'u hethol o'u plith. Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Nigel Smith. Ni dderbyniwyd enwebiadau eraill.

Felly:

**PENDERFYNWYD:** ***Ethol y Cynghorydd Nigel Smith yn Is-gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych dros fynyddoedd bwrdeistrefol 2021/22 a 2022/23.***

**3 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Geoff Corry, Harry Saville a David Gwyn Williams.

**4 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dim.

**5 MATERION BRYS**

Dim.

**6 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2021 er cymeradwyaeth.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Rachel Flynn am ei habsenoldeb o ganlyniad i brofedigaeth.

**PENDERFYNWYD** ***cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2021 fel cofnod cywir*****.**

**7 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ASESIADAU LLES AC YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED**

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol (Nicola Kneale) adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhoi diweddariad ar gynnydd â datblygiad Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych (ALl). Rhoddwyd diweddariad hefyd ar grant cymorth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gogledd Cymru.

Atgoffwyd yr aelodau o natur statudol yr Asesiad Lles, gan gydnabod mai dadansoddiad o sefyllfa yw hwn a fydd yn cynnal gwaith cynllunio'r BGC a'r cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu yn y ddwy sir yn y dyfodol.

Rhaid cynhyrchu'r Asesiad Lles erbyn mis Mai 2022 er mwyn i'r BGC allu cynhyrchu ei Gynllun Lles erbyn mis Mai 2023. Rhagwelir y bydd y drafft cyntaf ar gael ar gyfer cynnal ymgynghoriad â phreswylwyr erbyn mis Hydref 2021.

Roedd dwy brif ffrwd waith yn rhan o gynhyrchiad yr Asesiad Lles - dadansoddiad o sefyllfaoedd seiliedig ar ymchwilio i ddata a gwaith ymgysylltu - yn cynnwys y cyhoedd, cynghorwyr a chyflogwyr. Ymgymerodd Conwy a Sir Ddinbych â'u prosesau ymgysylltu eu hunain,

Amlygwyd yr angen i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig. Grant cymorth BGC Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru dros y cyfnod 2021/22 oedd £87,000. Bydd yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â bylchau mewn ymchwil, gan weithio gyda sefydliadau sy'n gweithio â phobl â nodweddion gwarchodedig er mwyn deall beth yw eu dyheadau yn y gymuned yn y dyfodol, yr heriau y maent yn eu hwynebu a'r camau adferol y gellid eu cymryd. Y gobaith yw y bydd yr ymchwil wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2021.

Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol:

- Nad ydynt yn rhagweld newidiadau mawr i'r CLl blaenorol, fodd bynnag bydd y pandemig Covid-19 a Brexit wedi effeithio ar rai meysydd e.e. pobl ifanc, gwaith a nodau economaidd.
- Mae Prifysgol Glyndŵr yn bartner allweddol sy'n adolygu ac yn rhoi cyngor ar effaith y pandemig ar gymunedau yn aml.
- Mae ymgysylltiad â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn dechrau gyda chlercod yn cael eu hysbysu ynghylch 'Sgwrs y Sir' gyda chais iddynt annog preswylwyr i gymryd rhan.
- Ymgynghorwyd â gwasanaethau tai er mwyn iddynt gysylltu â phobl sydd dan anfantais economaidd i gael adborth.
- Roedd yn annhebygol y byddai data cyfrifiad 2021 yn cael ei ryddhau mewn pryd i'w gynnwys yn nrafft cyntaf yr ALl.
- Mae ymchwil ar y Gymraeg a diwylliant Cymru yn digwydd yn bennaf ar lefel genedlaethol ond bydd y BGC hefyd yn cael gafael ar ddata lleol ble bynnag bosib.
- Pwrpas yr ymchwil yw adnabod pwysau ac mae tryloywder yn rhywbeth a fydd o fudd i bob corff cyhoeddus; a
- Caiff y data a gesglir ei ddehongli gan weithwyr proffesiynol yn y gwahanol sefydliadau a gynrychiolir ar y BGC.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Tîm Cynllunio Strategol am yr adroddiad cynhwysfawr gan gydnabod pwysigrwydd yr asesiad lles a fydd yn cynnal gwaith cynllunio strategol cyrff cyhoeddus dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad a gafwyd ar yr Asesiad Lles ac Ymgysylltiad Cymunedol a chytuno y bydd yr Asesiad Lles drafft yn cael ei roi gerbron y Cydbwyllgor er ymgynghoriad yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.**

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH 2020/2021**

Rhoddodd Fran Lewis, Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol (CBSC) drosolwg byr o'r adroddiad blynyddol drafft (a ddosbarthwyd eisoes).

Mae'r pandemig Covid-19 wedi dominyddu'r flwyddyn hon gan olygu y bu'n rhaid cynnal cyfarfodydd yn rhithiol a'u hailagor i'r cyhoedd unwaith yr oedd cyfleusterau cyfieithu ar gael.

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd er y bu'n rhaid canslo rhai o gyfarfodydd y BGC, ei bod er hynny wedi bod yn flwyddyn gydweithredol, gan ymateb i'r pandemig drwy gylch gorchwyl Fforwm Lleol Cymru Gydnerth y Gogledd yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil 2004. Roedd y camau cydweithredol a gymerwyd wedi'u rhestr ar dudalen 36 yr adroddiad.

Pan ail-ddechreuodd cyfarfodydd y BGC adolygwyd y blaenoriaethau er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol.

1. Pobl – Cefnogi Lles Meddyliol Da

   Roedd gwaith wedi'i stopio'n rhannol oherwydd pwysau'r pandemig ar y corff arweiniol - Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhoddwyd sicrwydd bod gwaith ar y gweill mewn ardaloedd gwledig o fewn y gymuned ffermio.

   Sefydlwyd is-grŵp er mwyn ailafael yn y thema iechyd meddwl a bydd yn dechrau ar ei waith unwaith y derbynnir gwybodaeth ar yr aelod arweiniol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2. Cymunedau – Cefnogi Ymrymusiad Cymunedol

   Mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych wedi gwneud cynnydd da gyda'r rhaglen Ymwybyddiaeth o Ddementia. Mae cyfarfodydd rhwydwaith wedi mynd o nerth i nerth ar-lein.

   Mae cysylltedd digidol yn cael ei asesu'n rhanbarthol drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r cynnydd mewn gweithio o gartref ac addysgu yn y cartref wedi amlygu ei bwysigrwydd.

3. Lle - Cefnogi Gwytnwch Amgylcheddol
   - Lansiwyd y rhaglen Addewid Gwyrdd i'r Gymuned ym mis Ionawr 2020 gyda 4 o addewidion cymunedol wedi eu cyflwyno i ddechrau. Roedd y rhaglen wedi'i hoedi drwy gydol y cyfnodau clo ond mae bellach wedi ailgychwyn ac wedi derbyn ei 5ed addewid.

- Datblygu nodau cyffredin ar gyfer sefydliadau BGC i fynd i'r afael â lleihau carbon.
- Adeiladu ar ffaith fod cymunedau wedi ail-gysylltu â mannau gwyrdd a glas yn ystod y cyfnod clo.
- Hyrwyddo dau brosiect lles – teithio cynaliadwy a mynediad at fannau gwyrdd – wedi'i noddi gan grant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru.

Meysydd eraill o waith sydd wedi'u cynnwys:

- Adolygu risgiau allweddol
- Sicrhau bod gwefan BGC Conwy a Sir Ddinbych yn awr yn hygyrch i bobl â nam synhwyraidd.
- Rhoi sylw i argymhellion Archwilio Cymru o ran adolygu BGC, a
- Cyfrannu at adolygiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y BGC yn parhau i gydweithio ar draws Gogledd Cymru ac yn arbennig gyda Phrifysgol Glyndŵr a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Wrecsam i wneud y mwyaf o waith partneriaeth, lleihau dyblygu, ennyn ymgysylltiad cymunedau a rhoi cyfrifoldebau'r ALl ar waith.

Anogodd aelodau swyddogion y BGC i gysylltu â chymunedau a sefydliadau gwirfoddol gyda'r bwriad o gynyddu nifer yr Addewidion Gwyrdd ar draws ardal y BGC.

**PENDERFYNWYD *nodi Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2020/2021***

**a Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS - DARPARU AR GYFER CENEDLAETHAU'R DYFODOL - Y STORI HYD YMA**

Cyflwynodd Nicola Kneale yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) gan ddweud bod llawer o'r argymhellion yn yr adroddiad yn ymwneud â'r gefnogaeth y gallai Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei rhoi i hwyluso gweithrediad ac effeithiolrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Roedd yr adroddiad wedi'i gynhyrchu ym mis Mawrth 2021 - cyn etholiadau Llywodraeth Cymru. Roedd ymrwymiad felly i adolygu'r argymhellion yn yr adroddiad o fewn 6 mis o sefydliad y weinyddiaeth newydd.

Mewn ymateb dywedodd aelodau'r Pwyllgor:

- Eu bod yn siomedig â diffyg ymateb sefydliadau addysgol yr ymgynghorwyd â hwy a hefyd â nifer isel y myfyrwyr yn y sefydliadau hynny a oedd yn ymwybodol o fodolaeth y Ddeddf a'i phwrpas.
- Bod y genhedlaeth iau yn fwy tueddol o ddefnyddio apiau ar eu dyfeisiadau TG, ac o bosibl dyma'r ffordd ymlaen gydag arolygon yn y dyfodol.
- Mae pobl yn dueddol o ddechrau derbyn paramedrau ansafonol yn eu bywydau gan gredu mai dyma'r 'norm', yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad *Darparu ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – Stori Hyd Yma* y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.**

**b PAPUR TRAFOD: CHWE THEMA A FYDD YN HELPU I WNEUD CRAFFU'N ADDAS AR GYFER Y DYFODOL**

Atgoffodd Fran Lewis y Pwyllgor bod cynllun gweithredu drafft yn ymateb i adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i roi gerbron y Pwyllgor eisoes. Roedd y cynllun gweithredu'n gwneud dau argymhelliad yn benodol ar gyfer y Cydbwyllgor Craffu:

1. Adolygu'r chwe thema sy'n gwneud craffu'n addas ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (tud 77 yn rhestr camau gweithredu posibl) ac
2. Ystyried cyfethol aelodau heb fod yn etholedig i'r CBTCh.

Gwnaeth y Pwyllgor gais bod gweithdy anffurfiol yn cael ei gynnal i drafod y camau gweithredu a bod yr eitem yn cael ei thrafod eto yng nghyfarfod nesaf Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 12 Tachwedd 2021.

**PENDERFYNWYD:**

***I. Nodi'r Papur Trafod: Chwe Thema i Helpu i Wneud Craffu yn Addas ar Gyfer y Dyfodol***
***II. Cynnal gweithdy anffurfiol i drafod y camau gweithredu cyn cyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a***
***III. Rhoi'r mater gerbron Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eto ar 12 Tachwedd 2021***

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd y Cadeirydd raglen gwaith i'r dyfodol drafft y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 (wedi'i ddosbarthu eisoes). Cytunwyd fod yn rhaid cynnwys yr eitemau canlynol ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

1. Diweddariad ar yr Asesiad Lles ac Ymgysylltiad Cymunedol.
2. BIPBC - Cyfraniad at waith y BGC a buddion y BGC iddo fel partner.
3. Chwe Thema a fydd yn helpu i wneud craffu'n addas ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD,** ***yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 2021/22***

## 11 CADARNHAU'R AMSERLEN GYFARFODYDD

12 Tachwedd 2021
11 Mawrth 2022
21 Hydref 2022

Gofynnodd y Cadeirydd bod yr holl ddyddiadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor y BGC yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12:00am**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **Dydd Gwener 11 Chwefror 2022** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | **Fran Lewis, Cyngor Bwrdesitref Sirol Conwy, (Pennaeth Adnoddau Dynol a Gwelliant Corfforaethol)** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Hannah Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Swyddog Cefnogi BGC)** |
| **Teitl** | **Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych 2022 - trosolwg ymgysylltu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn disgrifio'r dull ymgysylltu a gynhaliwyd i lywio'r Asesiad Lles , gan gynnwys trosolwg o'r dulliau a ddefnyddir ac ymatebion a dderbyniwyd (gan gynnwys crynodeb demograffig).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu trosolwg i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r dull ymgysylltu a gynhaliwyd i lywio'r Asesiad Lles.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Derbyn, darparu arsylwadau a chefnogi'r adroddiad.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn cynnwys gofyniad statudol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i lunio Asesiad o Les Lleol sy'n "ystyried cyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal." Mae'n nodi cryfderau ac asedau pobl a'u cymunedau, gan amlinellu beth sy'n bwysig i bobl a chymunedau yng Nghonwy a Sir Ddinbych o ran lles, nawr ac yn y dyfodol.

4.2 Yn unol â'n hasesiad diwethaf, ein nod y tro hwn oedd hefyd sicrhau bod ein hasesiad yn cael ei arwain gan ymgysylltu. Mae aelodau o'r cyhoedd, grwpiau cymunedol, pobl ifanc, busnesau lleol a staff sy'n gweithio ar draws ein sefydliadau partner sector cyhoeddus i gyd wedi cyfrannu eu profiadau o ymweld, byw neu weithio yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

4.3 Bwriadwyd i'n dull ymgysylltu, dadansoddi data a thueddiadau'r dyfodol fod â chysylltiad rhyngddynt. Rydym yn archwilio beth oedd pobl yn ei ddweud wrthym ac wedi cadarnhau hyn yn ein hymchwil, tueddiadau a data. Mae'r dull yn gadarn ond mae wedi profi'n heriol tra'n ymgysylltu yn ystod y pandemig Covid-19. Y mwyaf amlwg oedd sut i ymgysylltu yng nghyd-destun gweithio gartref dros ardal eang, cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a'r posibilrwydd o 'flinder zoom'.

4.4 Yn anffodus, mae hyn wedi cyfrannu at gyfradd ymateb bach sydd â darlun cyffredin ar draws Cymru (gweler Atodiad A am fwy o wybodaeth ar y nifer o ymatebion a dderbyniwyd a'r crynodeb o ddemograffig ein hymgysylltu).

4.5 Felly, er bod hyn wedi golygu nad yw ein hymgysylltu yn cynrychioli demographig neu ddaearyddol fel y bwriadwyd, rydym wedi rhoi'r un ystyriaeth i'r hyn mae pobl wedi'i ddweud wrthym, ac wedi dewis amlygu'r wybodaeth hon drwy gydol yr asesiad. Fodd bynnag, dechrau'r sgwrs yw hyn a byddwn yn parhau i ymgysylltu â phobl wrth i ni gwblhau'r asesiad a datblygu ein hamcanion a chynllun lles wrth symud ymlaen.

4.6 Fel rhan o'n dull ymgysylltu, roeddem wedi adolygu cymaint o wybodaeth ag oedd gennym ar gael i ddechrau o ymgysylltiadau ac ymgynghoriadau diweddar. Roedd hyn er mwyn lliniaru'r raddfa ymateb isel a hefyd i osgoi gofyn yr un cwestiynau ac ailadrodd yr hyn a ofynnwyd i bobl eisoes. Roeddem wedi edrych yn fewnol ar draws holl wasanaethau, wedi siarad gyda'n partneriaid lleol ac ystyried arolygon rhanbarthol a chenedlaethol diweddar.

4.7 Roeddem hefyd wedi cynnal yr ymgyrch Sgwrs y Sir ar draws Siroedd Conwy a Dinbych, drwy weithdai rhithiol a holiaduron (gwybodaeth bellach ar gael yn 4.7.1 a 4.7.2 isod). Er bod dulliau ymgysylltu ychydig yn wahanol wedi digwydd yn y ddwy sir roedd ein holiaduron yn debyg er mwyn rhannu ein hadborth ymgysylltu. Roeddem wedi dilyn yr un strwythur drwy ofyn cwestiynau agored gyda

meddwl hirdymor i ganiatáu i ymatebion gynnig cipolwg dyfnach a chasglu data ansoddol.

**4.7.1 Gweithdai rhithiol -**

- Oherwydd y pandemig Covid-19 roedd holl grwpiau ffocws Sgwrs y Sir wedi eu cynnal yn rhithiol (yn unol â chyfyngiadau Llywodraeth Cymru oedd ar waith adeg ymgysylltu).
- Cynhaliwyd nifer o grwpiau ffocws cyhoeddus yn Sir Ddinbych, gyda hwylusydd annibynnol, ar gyfer ardaloedd gwahanol o fewn y siroedd. Er enghraifft, roedd Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar Grwpiau Ardal yr Aelodau sef Y Rhyl, Prestatyn, Elwy, Dinbych, Rhuthun a Dyffryn Dyfrdwy.
- Yng Nghonwy cafodd y gweithdai eu hwyluso gan staff Conwy ac roeddent yn agored i'r cyhoedd ac aelodau o staff. Cafodd y rhain eu cynnal yn ôl thema ac yn canolbwyntio ar amcanion lles Conwy (gan gynnwys addysgiedig a medrus, teimlo'n ddiogel, tai, iach a heini, economi, amgylchedd, diwylliant a llais). Roedd pob gweithdy yn cynnwys panel gwrando o uwch swyddogion ac Aelodau Etholedig. Roedd y canolbwynt hwn ar ofyn i bobl am eu profiadau a gwrando ar yr hyn oedd ganddynt i'w ddweud. Roedd hyn yn ymwneud llawer â sgwrs – nid ymgynghori ar y cam hwn.
- Er bod presenoldeb yn isel yn y gweithdai rhithiol yn y ddwy sir, roedd y sesiynau wedi darparu adborth o ansawdd adeiladol a manwl i'n cwestiynau.

**4.7.2 Holiaduron -**

- hwn oedd y dull ymgysylltu mwyaf poblogaidd ac yn bennaf roedd yr ymatebion a dderbyniwyd wedi eu hystyried yn dda ac yn darparu adborth o ansawdd da ac adeiladol. Gwnaethom dderbyn dros 200 o ymatebion i'r arolwg ar-lein.
- Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn hygyrch i holl aelodau o'r gymuned, roedd copïau caled ar gael ym mhob llyfrgell ar draws y siroedd. Roeddent hefyd ar gael mewn Siopau Un Alwad yn Sir Ddinbych.
- Roedd y gweithdai rhithiol a holiaduron wedi eu hybu drwy ddatganiadau i'r wasg, negeseuon e-bost wedi eu targedu i'n rhestr ddosbarthu rhanddeiliad, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy Gynghorau Tref a Chymuned.

4.8 Roedd grwpiau ffocws rhithiol pellach wedi eu cynnal gyda Chyngor yr Ifanc ac amrywiol ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Yng Nghonwy gan fod Cyngor yr Ifanc mewn cyfnod o adolygiad, roedd swyddogion wedi mynychu'r grwpiau ieuenctid.

4.9 Roeddem wedi cynnal fforwm Lleisiau Cymunedol rhyngweithiol rhanbarthol ble roedd dros 40 o sefydliadau yn bresennol. Roedd y gweithdy hwn wedi'i gomisiynu drwy'r BGC Gogledd Cymru o dan arweiniad timau Cydlyniant Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Diben y gweithdy oedd ymgysylltu â phobl ble roedd iaith, diwylliant, gwahaniaethau cymdeithasol neu gorfforol o bosibl yn creu rhwystrau i gael eu clywed yn effeithiol. Roedd gweithdai ychwanegol wedi eu cynnig i fforymau Nam ar y Clyw a'r Golwg.

4.10 Drwy swyddog cyfathrebu arweiniol BGC, anogwyd staff i lenwi'r arolwg ar-lein yn ogystal â mynychu'r gweithdai rhithiol. Roedd yn galonogol gweld presenoldeb gan staff o amrywiol wasanaethau o fewn y cynghorau oedd yn caniatáu ar gyfer trafodaethau diddorol o safbwyntiau gwahanol. Fodd bynnag, nid oedd staff o sefydliadau BGC eraill wedi mynychu'r gweithdai.

## 5 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

5.1 Ymgysylltwyd ag aelod etholedig drwy amrywiol grwpiau ffocws / gweithdai rhithiol fel rhan o Sgwrs y Sir. Byddwn yn parhau i gyflwyno canfyddiadau o'r Asesiad Lles fydd yn adnodd allweddol i ddatblygu'r amcanion a chynllun lles.

## 6 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

6.1 Y risg bod yr Asesiad yn cael ei ddylanwadu gormod gan y rhaglen genedlaethol ac nad yw'n adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer ein cymuned leol – mewn ymateb roeddem wedi blaenoriaethu'r allbynnau gwaith ymgysylltu lleol dros unrhyw raglen genedlaethol.

## 7 Pŵer i wneud y penderfyniad

7.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.2 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adrannau 3.3 a 3.4 Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **Atodiad A –** Ymatebion a dadansoddiad Demograffig

## Conwy

Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i'r

**Arolwg -**

- Fe dderbyniodd yr arolwg ar-lein 62 o ymatebion, a chwblhawyd 1 o'r rhain yn y Gymraeg (ni dderbyniwyd ymatebion papur).
- O'r ymatebion i gyd, penderfynodd 39 o bobl (63%) i ddweud ychydig mwy wrthym amdanynt eu hunain drwy ateb rhai cwestiynau monitro.


**Gweithdai Rhithiol -**

- Fe fynychodd cyfanswm o 38 o bobl ein gweithdai rhithiol Sgwrs y Sir (mynychodd 25 o'r bobl hyn sawl gweithdy). Yn ogystal ag i'r cyhoedd, roedd y sesiynau hyn hefyd ar agor i staff ac aelodau etholedig.
- Mynychodd 7 o bobl ein gweithdy ieuenctid.

**Dadansoddiad demograffig** (ar gyfer yr arolwg a'r gweithdai rhithiol) **-**

Dadansoddiad o'r ymatebwyr fesul **ardal** -

| Ardal | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gorllewin Conwy | 14 | 15% |
| Gogledd Conwy | 33 | 35% |
| Canol Conwy | 14 | 15% |
| Dwyrain Conwy | 14 | 15% |
| De Conwy | 14 | 15% |
| Y tu allan i Fwrdeistref Sirol Conwy | 2 | 2% |
| Ni ddarparwyd cod post | 3 | 3% |




*Y cyfieithiad ar gyfer y map:*

*North - Gogledd*

*West - Gorllewin*

*Central - Canol*

*South - De*

*East - Dwyrain*

*Outside Conwy County Borough- Y tu allan i Fwrdeistref Sirol Conwy*

*Postcode not provided - Ni ddarparwyd cod post*

Dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl **rhywedd**

| Rhywedd | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynion | 46 | 65% |
| Merched | 23 | 33% |
| Roedd yn well ganddynt beidio â dweud | 1 | 1% |
| Dim ymateb | 1 | 1% |

Dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl **oedran**

| Ystod Oedran | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 0-15 | 6 | 8% |
| 16-24 | 1 | 1% |
| 25-34 | 2 | 3% |
| 35-44 | 7 | 10% |
| 45-54 | 14 | 20% |
| 55-64 | 29 | 41% |
| 65-74 | 9 | 13% |
| 75 oed a throsodd | 2 | 3% |
| Roedd yn well ganddynt beidio â dweud | 0 | 0% |
| Dim ymateb | 1 | 1% |

## Sir Ddinbych

Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i'r

**Arolwg -**

- Fe dderbyniodd yr arolwg ar-lein 146 o ymatebion, a chwblhawyd 4 o'r rhain yn y Gymraeg.
- O'r ymatebion i gyd, penderfynodd 89 o bobl (68.46%) i ddweud ychydig mwy wrthym amdanynt eu hunain drwy ateb rhai cwestiynau monitro. Fodd bynnag, nodir na atebodd cyfran fach o'r bobl hynny yr holl gwestiynau monitro.

**Gweithdai Rhithiol -**

- Mynychodd 11 o bobl grwpiau ffocws Sgwrs y Sir
- Fe gymrodd dros 60 o bobl ifanc ran drwy'r ysgolion
- Fe fynychodd 8 o bobl y sesiwn staff
- Fe gymrodd 22 o aelodau etholedig ran mewn grwpiau ffocws

**Dadansoddiad demograffig** (ar gyfer yr arolwg) -

Dadansoddiad o'r ymatebwyr fesul **ardal**:

| Ymateb | Nifer yr ymatebwyr | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|---|
| Y Rhyl | 9 | 18.37% |
| Prestatyn | 5 | 10.20% |
| Llanelwy | 3 | 6.12% |
| Dinbych | 9 | 18.37% |
| Rhuthun | 14 | 28.57% |
| Llangollen / Corwen | 9 | 18.37% |

Dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl **rhywedd**:

| Rhywedd | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynion | 34 | 40% |
| Merched | 50 | 58.82% |
| Roedd yn well ganddynt beidio â dweud | 1 | 1.18% |

Dadansoddiad o'r ymatebwyr yn ôl **oedran**:

| Oedran | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 0-15 oed | 6 | 6.98% |
| 16-24 oed | 1 | 1.16% |
| 25-34 oed | 9 | 10.47% |
| 35-44 oed | 22 | 25.58% |
| 45-54 oed | 20 | 23.26% |
| 55-64 oed | 18 | 20.93% |
| 65-74 oed | 10 | 11.63% |
| 75 oed a hŷn | 0 | 0 |

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **11 Chwefror, 2022** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Nicola Kneale, Cyngor Sir Ddinbych (Rheolwr Cynllunio Strategol)** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Hannah Edwards, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Swyddog Cefnogi y BGC)** |
| **Teitl** | **Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych 2022** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r broses yr ymgymerwyd â hi i adfywio'r Asesiad Lles ers ei lansiad cyntaf yn 2017. Gweler Atodiad A am Grynodeb Gweithredol o'r Asesiad Lles. Gellir dod o hyd i ddrafft llawn yr Asesiad Lles ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych - Asesiad Lles (https://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/).

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i adolygu'r canfyddiadau allweddol o'r Asesiad o Les Lleol a gwneud argymhellion fel rhan o'r broses ymgynghori.

1.3 Bydd yr Asesiad yn cael ei ddefnyddio i lywio nifer o gynlluniau strategol tymor hir, yn cynnwys Cynllun Lles nesaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych 2023-28.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I gyflwyno'r asesiad lles drafft i'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'r broses ymgynghori.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Derbyn a chefnogi'r adroddiad.

3.2 Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad a restrir isod -

i. Ydych chi'n cytuno gyda'r canfyddiadau yn yr Asesiad Lles?
ii. Oes unrhyw beth y mae angen i ni ei newid?
iii. Oes yna unrhyw beth rydym ni wedi'i fethu?
iv. Ydych chi'n debygol o ddefnyddio'r Asesiad Lles a'i gynnwys?
v. Unrhyw sylwadau neu syniadau eraill am yr Asesiad Lles?

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn nodi gofyniad statudol i bob BGC greu Asesiad o Les Lleol sy'n "ystyried cyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal." Mae'r asesiad hwn yn wahanol i asesiadau o anghenion traddodiadol gan y dylai hefyd edrych ar nodi asedau allweddol mewn ardal yn ogystal â meysydd o angen a bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth. Dylai edrych ar nodi cyfleoedd yn ogystal â'r bygythiadau, yn awr ac yn y dyfodol.

4.2. Mae gwaith wedi bod ar y gweill gyda phartneriaid BGC ar draws Conwy a Sir Ddinbych ers mis Ionawr 2021 i adolygu Asesiad Lles presennol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Nid yw'r siwrnai wedi dechrau gyda syniadau a ffurfiwyd eisoes neu ddadansoddiadau o ddata haniaethol ond ag ymgysylltiad eang â chymunedau lleol a'r staff sy'n gweithio yn y gwahanol sefydliadau sector cyhoeddus.

4.3. Byddai disgrifio pob agwedd o les yn dasg anferthol, felly mae'r Asesiad Lles yn ceisio darparu amlinelliad yn unig o faterion mwy strategol sy'n effeithio ar siroedd Conwy a Sir Ddinbych. Rydym wedi grwpio beth mae pobl wedi'i ddweud i mewn i oddeutu 60 pwnc strategol ac edrych ar y data a'r papurau ymchwil ategol sydd ar gael i weld lle mae tystiolaeth gadarn i gefnogi'r canfyddiadau a'r teimladau. Mae pob pwnc yn cynnwys dadansoddiad o'r: sefyllfa sydd ohoni; sut mae hynny'n cymharu â'r gorffennol; sut olwg sydd ar y dyfodol; beth mae pobl wedi'i ddweud am y pwnc, yn ogystal â chwestiynau allweddol a meysydd ble mae angen mwy o waith ymchwil.

4.4. Yn benodol rydym wedi ceisio ystyried goblygiadau bob pwnc ar les yr unigolyn a sut mae'n cyfrannu at y 7 nod lles a nodir yn y Ddeddf. Drwy wneud ymchwil ar draws nifer o bynciau sydd wedi'u halinio â'r saith nod lles cenedlaethol, rydym wedi dynodi cyfres o destunau trawsbynciol pwysig ar draws siroedd Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn Atodiad A, yn y Crynodeb Gweithredol.

4.5. Mae'r Asesiad Lles cyfan yn gorff o ymchwil cadarn ac eang sy'n rhoi darlun o Gonwy a Sir Ddinbych heddiw ac yn y dyfodol o ran y cyfleoedd a'r heriau a ragwelir.

4.6. Bydd y wybodaeth sydd wedi'i gynnwys yn yr asesiad ar gael ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar fformat 'Wikipedia', fel yr oedd yn flaenorol. Canmolwyd y fformat hwn yn y gorffennol am ei hygyrchedd ac am y gallu i adnewyddu'r wybodaeth am fod hyn yn ei wneud yn ased cynllunio gwerthfawr ac ymarferol ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector/sectorau llawr gwlad yn y sir, felly rydym wedi cadw ato.

4.8 Wedi'i seilio ar adborth ymgynghori, byddwn yn gwneud newidiadau ac yn cyhoeddi fersiwn terfynol ym mis Ebrill 2022. Unwaith mae'r Asesiad Lles wedi'i gymeradwyo gan y BGC, bydd y Bwrdd yn gweithio ar ddatblygu Cynllun Lles newydd. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar y Cynllun Lles cyn iddo gael ei gyhoeddi yn 2023.

## 5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

5.1 Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol wedi'u cynnal ar draws Conwy a Sir Ddinbych er mwyn clywed safbwyntiau cymunedau a llywio'r asesiad. Yn ychwanegol cafodd arolygon ar-lein eu hyrwyddo a gofynnwyd i bob sefydliad cyhoeddus gyflwyno'n ddienw adborth ymgysylltu yr ymgymerwyd ag o dros y 2 flynedd ddiwethaf er mwyn i ni allu dysgu o sylwadau a themâu cymunedau. Bydd rhagor o wybodaeth am y broses ymgysylltu yn cael ei drafod yn yr eitem nesaf.

## 6. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

6.1. Mae risg na fydd yr adnodd gwerthfawr hwn yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial gan bartneriaid. Yn ychwanegol at ymgynghori, byddwn felly'n dyfeisio rhaglen o gyhoeddusrwydd i sicrhau bod cydweithwyr o bob sector yn ymwybodol o'r Asesiad ac ymhle i ddod o hyd iddo, a sut y gall gynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus.

6.2. Mae perygl nad yw partneriaid yn cadw hyn yn gyfredol a thrwy hynny y bydd defnyddioldeb yr asesiad yn cael ei danseilio, gan olygu hefyd y bydd angen adolygiad ar raddfa fawr yn y dyfodol. Gall cyswllt rheolaidd rhwng swyddogion cefnogi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda chyfeiriad clir gan y Bwrdd, liniaru'r risg hwn.

6.3. Ers cynhyrchu'r Asesiad Lles cyntaf yn 2017 mae capasiti ymchwil timau Conwy a Sir Ddinbych wedi lleihau'n sylweddol. Er hynny mae'r timau wedi cynhyrchu dogfen strategol o safon uchel ar y sefyllfa bresennol yn y ddwy sir. Pe bai mwy o allu i ymchwilio ac ymgysylltu yn y sector cyhoeddus byddai posibilrwydd o gryfhau'r Asesiad ymhellach drwy edrych ar feysydd gwannach ac unrhyw fylchau mewn gwybodaeth, a deall penderfynyddion anghydraddoldeb lles yn well.

## 7. Pŵer i wneud y penderfyniad

7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.2. Adran 21 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 3.3 o Gylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**Atodiad A**

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych

## 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Rhestr o faterion / cyfleoedd | 5 |
| Beth sy'n wahanol? | 5 |
| Economi werdd | 7 |
| Cymunedau sy’n gydnerth yn wyneb newid hinsawdd a heriau byd-eang eraill | 9 |
| Amddiffyn bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol | 12 |
| Addysg, uwchsgilio, gwaith ac incwm da | 14 |
| Sectorau economaidd cydnerth sy’n cynnal diwylliant, natur a threftadaeth | 16 |
| Teithio a thrafnidiaeth sy’n cefnogi lles ehangach | 18 |
| Seilwaith digidol dibynadwy, diogelwch ar-lein a phrofiadau rhithiol soffistigedig | 19 |
| Heneiddio a heneiddio’n dda | 21 |
| Trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb (y bwlch lles) | 23 |
| Mynd i’r afael ag anghydraddoldeb ym maes iechyd a lles | 26 |
| Cymunedau diogel a deniadol | 30 |
| Tai iach, sefydlog a fforddiadwy sy’n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd | 31 |
| Ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol | 33 |
| Cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn gydnerth fel y gallant ymdopi yn y dyfodol | 34 |

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Conwy, Sir Ddinbych ac yn rhanbarthol, ers mis Ionawr 2021, i adolygu ein hasesiad llesiant presennol, a gyhoeddwyd ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Bydd y crynodeb gweithredol hwn a'r saith crynodeb o nodau llesiant yn lle'r wybodaeth ar-lein ar hyn o bryd a chaiff ei chyhoeddi cyn bo hir ar gyfer ymgynghori.

Mae gennym oddeutu trigain o bynciau strategol gan gynnwys cludiant, gordewdra, sectorau economaidd allweddol, bioamrywiaeth, cydraddoldeb, y Gymraeg, trais domestig ac yn y blaen. Rydym hefyd wedi llunio proffiliau ardal ar gyfer y broydd bach yn y ddwy sir. Mae pob pwnc yn cynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa sydd ohoni, sut mae hynny'n cymharu â'r gorffennol, sut olwg sydd ar y dyfodol, beth mae pobl wedi'i ddweud am y pwnc, yn ogystal â chwestiynau allweddol a meysydd ble mae angen mwy o waith ymchwil.

Rydym wedi rhoi'r un pwysau i'r gwahanol bethau a ddywedodd pobl wrthym, ac wedi dewis amlygu'r wybodaeth hon gydol yr asesiad.

Mae hwn wedi bod yn ddarn sylweddol o ymchwil. Mae llawer iawn o fanylion ac felly rydym wedi dewis crynhoi'r 60 pwnc yn saith crynodeb o nodau llesiant. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod llawer iawn o gymhlethdod ac weithiau tensiwn rhwng materion neu ar draws nodau, ac am y rheswm hwn rydym wedi darparu'r crynodeb gweithredol hwn, sy'n nodi 14 o faterion/cyfleoedd. Gobeithio y bydd y crynodeb gweithredol hwn yn eich cefnogi i symud o fan gyda llawer iawn o wybodaeth i allu gweld y cysylltiadau, y tensiynau, a'r cyfleoedd.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Deyrnas Gyfunol wedi dechrau adfer yn iawn ar ôl Covid-19 eto ac rydym yn dal i weithio drwy ganlyniadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n bwysig cydnabod bod rhai dangosyddion ac ymchwil yn dangos problemau, yn enwedig felly oherwydd Covid-19, sy'n gwneud cynllunio ar adeg o ansicrwydd yn arbennig o anodd. Yn ogystal â hynny, yn ein hasesiad blaenorol o les amlygwyd amrywiaeth o fylchau yn y data ansoddol a meintiol yn lleol, yn enwedig felly ynglŷn â phobl â nodweddion a ddiogelir. Mae'r bylchau hynny'n dal i fodoli, ond mae'r asesiad lles hwn yn defnyddio data ac

ymchwil cenedlaethol i ddod i gasgliadau ynglŷn â pha fathau o anghydraddoldeb sydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy a Sir Ddinbych, ac yn benodol pa fathau o anghydraddoldeb lles sy'n debygol o barhau.  Byddwn yn adolygu ein dadansoddiadau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu tueddiadau presennol ac yn y dyfodol pan fydd gwybodaeth newydd neu fwy dibynadwy ar gael.

Fel sefydliadau cyhoeddus sy'n delio â heriau ariannol, capasiti staff a heriau amgylcheddol, mae'n fwy hanfodol nag erioed ein bod yn canolbwyntio ein sylw ar y meysydd mwyaf allweddol, a bod y camau gweithredu a'r penderfyniadau a wnawn yn cael eu hategu gan ddadansoddiad data ac ymchwil sy'n dangos y bydd yr effaith yn effeithiol ac yn gwella canlyniadau i'n cymunedau ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.  Mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd data, gan godi ei broffil gyda rheolwyr y sector cyhoeddus ar bob lefel sydd wedi bod wrthi'n barhaus yn adolygu data ac addasu cynlluniau a phenderfyniadau yn unol â hynny.  Mae'r bwletinau newyddion rheolaidd a'r trafodaethau ystadegol hefyd wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd data.

Mae arnom angen gwrthrychedd a hyder yn ein cynlluniau, ac i sicrhau hynny, mae arnom angen gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth bendant a chadarn.  Er mwyn manteisio ar botensial llawn data ac ymchwil, mae angen i sefydliad gael ei arwain gan wybodaeth, ac i'r perwyl hwn, mae angen trin data ac ymchwil fel ased sefydliadol strategol – fel pobl neu arian.

Mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldebau statudol i lunio asesiadau o anghenion.  Mae nifer o asesiadau ar waith ar gyfer gofal cymdeithasol a lles, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, economaidd, amgylcheddol a chynllunio.  Mae'r asesiadau'n amrywio o ôl troed sirol i ranbarthol a gallant gynnwys dyblygu/diffyg dull cydgysylltiedig o ran dadansoddiad strategol cyffredinol.  Mae lefel yr adnoddau, y sgiliau a'r gallu i gyflwyno'r asesiadau yn amrywio'n sylweddol yn ôl y pwnc ac yn gyffredinol maent yn cael eu hariannu gan grantiau anghylchol a all gyfyngu'n sylweddol ar y gallu i ddenu arbenigwyr ymchwil.  Rydym yn dal i wynebu cyfyngiadau yn ein gallu i ymchwilio ac ymgysylltu, ar lefelau lleol, isranbarthol a rhanbarthol ac mae hyn yn cyflwyno heriau ar draws nifer o feysydd.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Rhestr o faterion / cyfleoedd

1. Economi werdd
2. Cymunedau sy’n gydnerth yn wyneb newid hinsawdd a heriau byd-eang eraill
3. Amddiffyn bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol
4. Addysg, uwchsgilio, gwaith ac incwm da
5. Sectorau economaidd cydnerth sy’n cynnal diwylliant, natur a threftadaeth
6. Teithio a thrafnidiaeth sy’n cefnogi lles ehangach
7. Seilwaith digidol dibynadwy, diogelwch ar-lein a phrofiadau rhithiol soffistigedig
8. Heneiddio a heneiddio’n dda
9. Trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb (y bwlch lles)
10. Mynd i’r afael ag anghydraddoldeb ym maes iechyd a lles
11. Cymunedau diogel a deniadol
12. Tai iach, sefydlog a fforddiadwy sy’n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd
13. Ymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol
14. Cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn gydnerth fel y gallant ymdopi yn y dyfodol

## Beth sy'n wahanol?

Cyhoeddwyd ein hasesiad lleol blaenorol o lesiant yn 2017. Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, roedd yr asesiad yn edrych yn yr hirdymor ar dueddiadau a fyddai'n effeithio ar lesiant yn y dyfodol.  Nid yw'n syndod bod llawer o'r tueddiadau hynny'n dal i fodoli. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae profiad o effaith newid hinsawdd, Brexit a Covid-19, a’r ymateb byd-eang iddynt, wedi arwain at rai tueddiadau'n gwella neu'n gwaethygu. At hynny, mae'r fersiwn ddiweddaraf hon o'n hasesiad llesiant wedi darparu rhywfaint o dystiolaeth neu ddadansoddiadau newydd am dueddiadau a materion penodol.

I grynhoi:

- Mae effeithiau newid hinsawdd yn parhau i gael eu teimlo ar lefel fyd-eang, Cymru ac awdurdodau lleol – mae ein hymatebion yn annhebygol o gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau uchelgeisiol i ddatgarboneiddio a chefnogi adferiad natur.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

- Mae cyfleoedd cynyddol i roi hwb i'n sector twristiaeth, yn gysylltiedig â'n diwylliant unigryw a'n tirwedd naturiol, wrth i lai o bobl deithio dros y byd.
- Gallwn weld yn gliriach ddyfodol lle mae pobl sydd eisoes mewn perygl o dlodi ac anghydraddoldeb yn teimlo effeithiau negyddol newid hinsawdd, a hynny'n anghymesur.
- Mae Brexit, ac i ba raddau y gall ein heconomïau a'n sectorau addasu i reolau newydd ynghylch mewnforio ac allforio, yn golygu ei bod yn anodd rhagweld yn hyderus y dyfodol mwyaf tebygol er enghraifft, ar gyfer amaethyddiaeth neu gynhyrchu bwyd. Gwyddom fod digon o gyfleoedd i sectorau addasu a ffynnu.
- Mae Covid-19 wedi cyflymu tueddiadau o ran darparu mwy o wasanaethau ar-lein a mwy o bobl yn gweithio gartref. Mae hyn wedi lleihau'r angen i deithio (gan ddileu rhwystrau teithio i rai pobl). Nid ydym yn siŵr sut y gallwn gydbwyso cyfleoedd a grëir gan wasanaethau ar-lein, sydd er enghraifft yn gallu dileu rhwystrau teithio, a sicrhau arbedion cost ar gyfer gwasanaethau, gyda'r heriau sy'n gysylltiedig ag ansawdd y gwasanaeth o safbwynt y defnyddiwr.
- Mae Covid-19 yn golygu bod anghydraddoldebau presennol yn waeth ac mae'n anodd rhagweld yr effeithiau hirdymor ar hyn o bryd. Er enghraifft, effaith cau ysgolion a chadw pellter cymdeithasol ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed ac iechyd meddwl yn fwy cyffredinol.
- Gwelir bod gan dai gysylltiad cryf â lles personol (a'r ffactorau/gyrwyr sy'n gallu gwella iechyd a lles, megis cyflogaeth).
- Bydd cyflogaeth (diweithdra uwch yn benodol) yn bryder allweddol yn y tymor byr o leiaf.

Y tro hwn, rydym hefyd wedi darparu mwy o ddadansoddiadau o 'fwlch llesiant' rhwng y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yn y ddwy sir. Gwyddom nad yw tueddiadau'n gwella, er gwaethaf ymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Ceir darlun cliriach hefyd o'r heriau a wynebir gan bobl anabl, sy'n fwy tebygol o fod mewn perygl o fod dan anfantais ac sy'n tueddu i fod â lles personol is.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Economi werdd

### Y sefyllfa yn awr a'r duedd i'r dyfodol

Mae'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag **economi carbon isel** yn parhau i fod yn sylweddol iawn a bydd angen canolbwyntio ymdrechion **ar draws diwydiant, amaethyddiaeth a'r sector cyhoeddus**. Yn draddodiadol, mae twf economaidd wedi cael ei ystyried yn niweidiol i iechyd ein planed a phopeth byw, ac mae'r farn honno yn dal i gael ei harddel mewn rhai achosion.

> *"[A] green economy [is] one that results in improved human well-being and social equity, while significantly reducing environmental risks and ecological scarcities"*[1]

Mae hyn yn disgrifio economi gysylltiedig, adfywiol iawn sy'n llwyddo i dyfu ond nid ar draul lles y blaned a'r cymunedau sy'n byw arni. Mae sgiliau, technoleg, ynni, adeiladau, economi gylchol (lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu), mentergarwch a lles cymunedol oll yn hollbwysig i economi werdd.

Mae gennym dargedau heriol iawn ar gyfer **lleihau allyriadau carbon** ac mae'r rhain yn gymwys i gyrff domestig, masnachol a'r sector cyhoeddus. Bydd hyd yn oed y cynlluniau gweithredu hinsawdd cenedlaethol mwyaf uchelgeisiol yn methu. Mae arnom angen **economi adfywiol**. Dylem ganolbwyntio ar y systemau craidd sy'n rhoi'r pwysau mwyaf ar ecosystemau (yn seiliedig ar **fwyd, ynni a thrafnidiaeth**). Bydd **technegau adeiladu cynaliadwy, dylunio i atal gwastraff a datgarboneiddio tai** yn hollbwysig a gallai'r datblygiadau hyn greu llawer o gyfleoedd **uwchsgilio**.

Disgwylir newidiadau i'r **sector amaethyddiaeth a bwyd**. Er enghraifft, mae cynhyrchu defaid yn debygol o ddod yn llai hyfyw yn economaidd, oherwydd newidiadau sy'n effeithio ar gael mynediad i'r farchnad a chyfyngiadau ar arian cyhoeddus. Mae rhai ymchwilwyr yn dadlau y bydd tir sy'n cael ei ddefnyddio i ffermio defaid yng Nghymru yn debygol iawn o

---

[1] UNEP (2011), ' Towards a Green Economy: Pathways to Sustainable Development and Poverty Eradication' (copi ymlaen llaw ar gael gan Gwefan rhaglen amgylchedd y Cenhedloedd Unedig).

gael ei drosi yn goedwigoedd.[2] Bydd gan y newidiadau hyn oblygiadau i'n hamaethyddiaeth, ein **cymuned** ffermio, ein hamgylchedd ac o bosibl ein **lles diwylliannol**, gan fod "digwyddiadau" sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cysylltu fwyfwy â chynhyrchu bwyd yn lleol. Mae'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â **ffermio carbon isel**, amaeth-bwyd a thwristiaeth, ffermio sy'n gyfeillgar i natur ac ati, yn niferus iawn.[3]

Mae addasu i newid hinsawdd yn dod â chyfleoedd a heriau economaidd hefyd drwy ddatblygu **technoleg newydd**. Datblygiadau ym maes cynhyrchu ynni adnewyddadwy a'r chwyldro digidol, er enghraifft. Bydd cadw cymaint â phosibl o'r budd yn lleol wrth ddatblygu a threfnu'r technolegau newydd hyn yn allweddol.

Mae ymdrechion pendant ar y gweill i **ddatgarboneiddio ein seilwaith trafnidiaeth**, ond i'r bobl hynny nad oes ganddynt eu ceir eu hunain mae'r heriau yn parhau, a bydd heriau trafnidiaeth yn parhau yn y tymor hir. Bydd meddwl am ddatblygu cynaliadwy yn awr yn hollbwysig er mwyn atal problemau i ddefnyddwyr ffyrdd yn y dyfodol. Mae'r system **drafnidiaeth** yn effeithio ar ecosystemau ac iechyd.

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Wrth i ni ymgysylltu â'r cyhoedd daeth yn amlwg eu bod am weld newidiadau arloesol i ddatgarboneiddio tai, trafnidiaeth a mathau eraill o seilwaith i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Yn benodol, mae pobl eisiau i geisiadau cynllunio ar gyfer tai ac ysgolion gynnwys gofynion gorfodol i ddarparu seilwaith amgylcheddol adnewyddadwy, sef, pympiau gwres a phaneli solar. Er mwyn gweithio tuag at ddatgarboneiddio ein seilwaith trafnidiaeth, mae pobl wedi dweud wrthym eu bod am weld pwyntiau gwefru cerbydau trydan a mannau parcio ar draws y sir er mwyn annog pobl i droi at gerbydau trydan.

Yn ogystal â hyn, roedd llawer o bobl yn awyddus i weld newidiadau ym maes trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn bod yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd ac roeddynt yn dymuno gweld bysiau trydan yn cael eu darparu.

---

[2] Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021). *Briffiad llesiant ac effaith Covid-19 a Brexit*.
[3] Ar gael o [Wefan Uchelgais Gogledd Cymru]

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod eisiau gweld rhagor o gyflogwyr 'gwyrdd' yn cael eu denu i gymunedau. Roedd cyflogwyr gwyrdd yn cael eu hystyried fel rhai sy'n gallu gwella marchnadoedd carbon isel cynaliadwy a chydnerth a chynnig cyfleoedd a sicrwydd swyddi yn y tymor hir. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys cyflogwyr sy'n gallu ailgylchu adnoddau lleol, ymgyngoriaethau busnes gwyrdd a chwmnïau ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau gwyrdd arloesol. At hyn, mae pobl am weld pwyslais ar uwchsgilio a theilwra hyfforddiant ar gyfer y galw hwn.

Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd cael mynediad i ffynonellau bwyd a gynhyrchir yn lleol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Roedd pobl am weld y maes hwn yn cael ei hyrwyddo mwy er mwyn cyfrannu at yr economi leol a lleihau milltiroedd bwyd o safbwynt carbon.

### Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys bron i 100 o feysydd gweithgaredd penodol. Ymhlith y deg amcan llesiant mae ymrwymiadau i wneud y canlynol: "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol" ac "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl."

## Cymunedau sy'n gydnerth yn wyneb newid hinsawdd a heriau byd-eang eraill

### Y sefyllfa bresennol a'r duedd i'r dyfodol

Mae angen i Gymru ddefnyddio llai o ynni a chreu newid yn ymddygiad pobl i leihau'r defnydd o ynni, yn ogystal â chynyddu eu defnydd o **ynni adnewyddadwy a chynaliadwy**, gan leihau'r ddibyniaeth bresennol ar danwyddau ffosil niweidiol. Cymunedau cydnerth yw rhai sy'n gallu **addasu i newid** yn llwyddiannus.

Mae effeithiau **newid hinsawdd ac ecolegol** yn cael effaith anghymesur ar gymunedau tlotaf y byd, ac yma yng Nghonwy a Sir Ddinbych, mae rhai o'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf hefyd yn wynebu peryglon oherwydd ffactorau sy'n cael effaith negyddol ar les wrth i lefel y môr godi.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

Mae mwy o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod gan bobl leoedd iach i fyw ynddynt, sydd wedi'u hamddiffyn rhag **perygl amgylcheddol** ar draws yr ardaloedd.[4] Mae sicrhau bod cymunedau yn gydnerth er mwyn wynebu digwyddiadau tywydd eithafol, yn benodol **llifogydd a gwres eithafol**, yn heriau sylweddol. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny a ddisgrifir fel rhai sy'n wynebu amddifadedd dwys hefyd yn **gymunedau sydd mewn perygl** o ddioddef llifogydd; gallant hefyd fod yn fwy tebygol o wynebu heriau eraill yn ymwneud â'u lles dros y degawd nesaf (tlodi bwyd, iechyd gwael, yn llai tebygol o gael budd o welliannau ynni). Yn fyr, mae newid hinsawdd yn fwy tebygol o gael effaith arnynt nag ar grwpiau a chymunedau mwy cyfoethog. Bydd yr effeithiau hyn sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn arwain at gynnydd yn nifer yr eiddo, seilwaith a gwasanaethau allweddol fydd mewn perygl o ddioddef llifogydd o bob ffynhonnell. Gallai lleoedd nad oeddynt mewn perygl yn y gorffennol ddod yn agored i niwed a gallai rhai lleoedd sy'n wynebu perygl ar hyn o bryd wynebu rhagor o berygl. Mae disgwyl y bydd cynnydd yn y boblogaeth sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd o ganlyniad i newidiadau mewn defnydd tir, trefoli a datblygu mewn ardaloedd isel.

Mae'r system fwyd fyd-eang yn cael effaith sylweddol iawn ar yr amgylchedd. Mae adroddiad IPBES y Cenhedloedd Unedig (2019) yn nodi mai dyma un o brif achosion yr argyfwng ym myd natur. Disgwylir y bydd newid hinsawdd yn cael effaith ar bedair colofn

---

[4] Mae adroddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n seiliedig ar waith ymchwil diweddar, sef 'Ymateb i Her Driphlyg Brexit, COVID-19 a Newid Hinsawdd i iechyd, llesiant a thegwch yng Nghymru', wedi dangos y gall newid hinsawdd gael effeithau iechyd uniongyrchol ac anuniongyrchol ar Gymru, e.e. effaith llygredd aer ar glefydau resbiradol, digwyddiad gwres eithafol yn achosi marwolaethau cysylltiedig ac effaith ymddygiad ar iechyd, er enghraifft, deiet, math, teithio llesol ac alcohol. Hefyd, nid yw data sydd wedi asesu cydnerthedd ein cymunedau yn y ddwy ardal i wrthsefyll perygl hinsawdd ar gael ar hyn o bryd ac mae gweithredu yn y maes hwn wedi bod yn gyfyngedig i greu cynlluniau rheoli llifogydd cymunedol mewn rhai o'r cymunedau sy'n wynebu perygl.

**diogelwch bwyd** – argaeledd bwyd, mynediad at fwyd, defnydd bwyd a sefydlogrwydd y cyflenwad bwyd. Mae hyn yn debygol o effeithio ar **dlodi bwyd**.

Bydd **paratoi ar gyfer pandemigau yn y dyfodol** (a chydnerthedd yn y dyfodol) yn thema i'w hystyried ar draws pob sector. Mae cwmpas a natur heriau'r dyfodol yn enfawr.

*Er bod trefniadau rheoli yn eu lle neu yn yr arfaeth, ni ellir dileu'r perygl o lifogydd yn llwyr ac mae hyn y destun pryder yn benodol ar gyfer rhannau o afon Dyfrdwy, ardaloedd yn nhref Dinbych ac o amgylch Melin Brookhouse, llifogydd o afonydd Elwy, Clwyd a Clywedog yn effeithio ar Elwy a Rhuthun, ac ar hyd rhannau arfordirol Sir Ddinbych.*

*Yng Nghonwy, mae bron i 60% o boblogaeth y Sir yn byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd arfordirol ac mae cymunedau yn Nyffryn Conwy wedi dioddef yn sgil Storm Ciara yn ddiweddar.*

*Mae Cyngor Conwy yn buddsoddi mewn gwelliannau i'r amddiffynfeydd arfordirol rhwng Llanfairfechan a Bae Cinmel ar hyn o bryd er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd yn y dyfodol. At hyn, mae cymunedau gwledig wedi elwa ar waith lliniaru llifogydd a gwblhawyd yn Llanrwst a Mochdre ac mae cynlluniau eraill ar y gweill ar gyfer Llansannan, Penmaenmawr, Dolwyddelan a Betws y coed.*

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mae pobl wedi dweud eu bod yn pryderu am oblygiadau newid hinsawdd ac maent wedi mynegi eu dymuniad i gael mwy o gefnogaeth a grym i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae cymunedau a busnesau lleol eisiau chwarae mwy o ran i amddiffyn a pharchu'r amgylchedd.

Mae pobl yn gwerthfawrogi busnesau ffermio a bwyd lleol ac maent yn cael eu gweld yn hanfodol er mwyn i gymunedau aros yn gydnerth. Mae pobl yn awyddus i weld y sectorau hyn yn tyfu ac yn cyflogi rhagor o bobl drwy gynnwys cymunedau, cadw gwariant yn lleol a chefnogi newid hinsawdd drwy ddefnyddio ffynonellau lleol.

Mae pobl am weld dull rhagweithiol yn cael ei ddefnyddio wrth gynllunio a rhoi cymorth er mwyn atal llifogydd lleol mewn pentrefi a threfi yn hytrach na bod cymunedau yn gorfod ymateb pan fyddant yn wynebu'r problemau hyn. Cyfeiriwyd at yr angen i baratoi a

chynllunio ar gyfer argyfyngau wrth ystyried lle dylem leoli ysbytai, cartrefi gofal, ysgolion, diwydiant ac ardaloedd preswyl yn wyneb perygl llifogydd. Pwysleisiwyd pa mor bwysig yw sicrhau y gallwn gysylltu â'r ardaloedd a'r cyfleusterau pwysig hyn os bydd llifogydd yn effeithio arnynt.

### Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol: "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol"; "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.", a "Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt. Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn."

## Amddiffyn bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol

### Y sefyllfa bresennol a'r duedd i'r dyfodol

Mae'r cynnydd mewn tymheredd yn fyd-eang yn cael effaith ar ecoleg y byd. Mae'r sefyllfa hon yn waeth oherwydd bod maint ac ansawdd cynefinoedd yn dirywio yn sgil gweithgareddau **rheoli a datblygu tir anghynaladwy** fel datgoedwigo a'r defnydd o blaleiddiaid. Mae amddiffyn yr amgylchedd naturiol yn her allweddol i'r **economi wledig** hefyd oherwydd rôl ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i reoli'r amgylchedd.

Mae arnom angen economi sy'n **adfywio** ecosystemau ac sy'n ailgyflenwi adnoddau naturiol. Er mwyn sicrhau ein bod yn **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy** mae'n rhaid cael systemau cymdeithasol, economaidd ac ecosystemau iach, sy'n gweithredu'n dda. Nid ydym yn cyrraedd gofynion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru eto, felly gallwn ddweud i sicrwydd nad ydynt yn cael eu bodloni ym Mwrdeistref Sirol Conwy a Sir Ddinbych hyd yma ychwaith.

Mae gan Gonwy a Sir Ddinbych **amrywiaeth hynod o gyfoethog o gynefinoedd, ond maent yn agored iawn i niwed;** mae'r rhain yn amrywio o glogwyni arfordirol a thraethau i ddyffrynnoedd cysgodol a rhostiroedd agored. Mae cadwraeth natur yr ardal yn fater pwysig iawn ac mae'r ardal yn cynnwys nifer o nodweddion pwysig fel calchbalmentydd,

coetiroedd, gwrychoedd, dolydd a phorfeydd, gwelyau cors, rhostiroedd, pyllau a chynefinoedd morydol.

Mae adfer natur yn allweddol er mwyn ailadeiladu gwydnwch ecolegol a chynnal y buddion a gawn o fyd natur. Mae'n rhaid cyflawni ein gwaith ailadeiladu yn gynt ac ar raddfa fwy os ydym am leihau effeithiau posibl yr argyfwng hinsawdd a natur.

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mae pobl wedi dweud wrthym pa mor bwysig yw cael mynediad i'r ardaloedd gwyrdd a glas lleol sy'n ddiogel ac yn lân a chredir bod hyn yn rhan o hunaniaeth ein hardal. Maent yn dymuno gweld mwy o weithredu amgylcheddol ac yn croesawu mwy o fioamrywiaeth, gwaith cadwraeth a gwaith i amddiffyn natur mewn ardaloedd gwyrdd lleol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a chymunedau.

Er bod galw mawr am dai, yr hyn mae llawer o bobl yn ei alw'n 'argyfwng tai', dywedodd pobl fod angen cymryd gofal wrth adeiladu ar dir gwyrdd os oes dewisiadau eraill ar gael. Ystyriaethau amgylcheddol sy'n ysgogi sylwadau o'r fath gan fod pobl yn gwerthfawrogi'r tir gwyrdd a'r bioamrywiaeth a ddaw yn ei sgil.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â phroblemau sbwriel ar draws y sir sy'n gwneud i ardaloedd edrych yn afiach ac yn anniogel i gymunedau a bywyd gwyllt. Yn ogystal â chynyddu nifer y biniau mewn ardaloedd gwledig, yn benodol biniau sy'n gwahanu gwastraff cyffredinol a gwastraff ailgylchu, roedd pobl hefyd yn dymuno gweld mwy o addysg a rhybuddion atgoffa yn cael eu rhoi i gymunedau er mwyn annog pobl i fod yn gyfrifol wrth waredu eu gwastraff. Mae pobl wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r defnydd o blastig untro ac awydd i leihau deunydd pecynnu mewn siopau. Mae pobl ifanc mewn ysgolion wedi dweud wrthym sawl gwaith eu bod yn pryderu ynghylch y defnydd o blastigau untro mewn ysgolion.

## Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol: "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol"; "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl"; "Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a

gweithio ynddynt" ac "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn."

## Addysg, uwchsgilio, gwaith ac incwm da

### Y sefyllfa yn awr a'r duedd i'r dyfodol

Mae lefel **sgiliau**'r boblogaeth oedran gweithio yn y ddwy sir wedi bod yn gwella'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae dod o hyd i waith yn dal i fod yn anodd i'r rheini sydd allan o waith, ac mae'r her o wella sgiliau gweithluoedd y ddwy ardal fel y gallant ddod o hyd i swyddi sgiliau uchel/sy'n talu'n dda yn parhau. Bydd **datgarboneiddio** yn hollbwysig a gallai greu llawer o gyfleoedd uwchsgilio (yn enwedig mewn perthynas ag adeiladu a datgarboneiddio tai a'r sector ynni).

Ar draws y Deyrnas Unedig, amcangyfrifir bod **cyfradd gyflogaeth** pobl rhwng 16 a 64 oed wedi bod yn cynyddu'n raddol ers dechrau 2012, yn bennaf oherwydd cynnydd yng nghyfradd gyflogaeth menywod a chodi oedran Pensiwn Gwladol.[5] Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y **gyfradd ddiweithdra** yn aros yn uwch na'r lefelau a welwyd yn 2019 tan y flwyddyn 2024 o leiaf. Bydd rhagor o bobl  ifanc yn gweithio mewn swyddi llai sicr, sy'n talu llai.

O ystyried ein rhagolygon o ran cyflogaeth, gallwn ddisgwyl gweld **cyfraddau hawlio budd-daliadau uwch** yn ystod y pum neu'r deng mlynedd nesaf ynghyd â **diweithdra**, ac wrth gyfuno hyn â phroblemau iechyd neu anabledd mae hyn yn debygol o gael effaith negyddol ar les personol. Mae Sir Ddinbych yn y trydydd safle o ran cyfradd **diweithdra pobl ifanc** o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru (10.1% ym mis Gorffennaf 2021). Y gyfradd yng Nghonwy oedd 9.1% yn ystod yr un cyfnod.[6] Mae'r broblem ar ei gwaethaf yn ward Gorllewin y Rhyl sy'n cyfrif am un rhan o bump o gyfanswm Sir Ddinbych.

---

[5] Government Office for Science (2021). *Trend Deck*
[6] 'Claimant count by age - not seasonally adjusted (June 2021) – ONS Crown Copyright Reserved' [o Nomis ar 16 Gorffennaf 2021]

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

Mae **lefelau incwm cyffredinol aelwydydd** Conwy a Sir Ddinbych yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac amcangyfrifir bod cyfran mwy o aelwydydd Conwy a Sir Ddinbych yn byw mewn **tlodi**. Mae tystiolaeth bod y lefel **tlodi mewn gwaith** yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r sefyllfa hon yn debygol o barhau am y pum neu'r deng mlynedd nesaf o leiaf.

Mae lefelau incwm yn ffactor allweddol yn y farchnad **dai** ac yn cael effaith ar ba mor fforddiadwy yw tai. Rydym wedi gweld gwendid yn y farchnad perchen-feddiannydd a mwy o ddibyniaeth ar lety rhent preifat.

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mae pobl yn pryderu ynglŷn â'r economi leol ac maent am sicrhau bod cymorth ar gael i fusnesau bach a'r sector twristiaeth er mwyn i'r economi leol ffynnu a bod yn fwy cydnerth. Yn yr un modd, mae'r angen am ddarparu addysg, hyfforddiant a chymorth cyflogadwyedd digonol i bobl o bob lefel gweithgaredd economaidd wedi bod yn amlwg drwy gydol ein hymgysylltiad â'r cyhoedd. Eto i gyd, mae pobl wedi dweud wrthym bod angen rhoi blaenoriaeth i bobl ifanc wrth ddarparu cymorth o'r fath.

Yn ystod ein hymgysylltiad â phobl ifanc ac mewn ysgolion, mae pobl ifanc wedi dweud wrthym bod cael profiadau gwaith yn flaenoriaeth iddynt, a'u bod yn cael trafferth dod o hyd i gyfleoedd o'r fath ar hyn o bryd. Yn y dyfodol, maent yn rhagweld y byddant yn gallu defnyddio un llwyfan hygyrch lle bydd cyfleoedd yn cael eu hysbysebu gan nad ydynt yn aml yn gwybod ble i edrych amdanynt ar hyn o bryd.

Oherwydd natur dymhorol y farchnad lafur mewn rhai o'r trefi a phentrefi arfordirol a thwristaidd, mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu ynglŷn â'r diffyg swyddi gynaliadwy sydd ar gael. Credir bod angen denu mathau gwahanol o gyflogwyr preifat i'r sir i greu rhagor o swyddi a chefnogi'r economi leol. Ar y llaw arall, mae pobl yn cydnabod bod rhai sectorau yn wynebu problemau recriwtio ar hyn o bryd gan eu bod wedi dod yn llai deniadol e.e. gofal cymdeithasol a lletygarwch, ac maent am weld rhagor o gymorth a mesurau i wella sgiliau er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol: “Parhau â’n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau’n codi. Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.”; “Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau’r dyfodol”; ac “Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.”

# Sectorau economaidd cydnerth sy’n cynnal diwylliant, natur a threftadaeth

## Y sefyllfa yn awr a’r duedd i’r dyfodol

Mae gan newidiadau i **economïau cenedlaethol a rhyngwladol** y potensial i gael effaith fawr ar ddwy ardal yr awdurdodau lleol a’u preswylwyr. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn fwy manwl ar ôl i ymchwil Tueddiadau’r Dyfodol Llywodraeth Cymru gael ei ryddhau.

Yn y tymor canolig a’r tymor hir, rydym yn rhagweld y bydd yr effaith fwyaf i’w gweld ar **sectorau economaidd** sy’n dibynnu ar fewnforio ac allforio i’r UE – fel y sectorau amaethyddiaeth a bwyd, neu sectorau gweithgynhyrchu a dur er enghraifft. Bydd angen iddynt addasu er mwyn goroesi. Yng Nghonwy a Sir Ddinbych, gallai hyn gael effaith ar **gynhyrchu defaid, twristiaeth** a’r sector **dur** (y bobl a gyflogir yn y sector hwnnw). Gallai effaith Brexit ar yr **economi wledig** fod yn sylweddol iawn.

Mae gennym **sector cyhoeddus** mawr iawn ac mae’r sectorau **gofal cymdeithasol ac iechyd** o dan bwysau mawr iawn (ac yn wynebu galw cynyddol). Mae **twristiaeth** ac **amaethyddiaeth** hefyd yn sectorau strategol bwysig yn y ddwy sir. Yn aml, mae cyswllt annatod rhwng ein **heconomïau** lleol â **mynegiant diwylliannol**, er enghraifft ffermio. Ar hyn o bryd, mae sawl sector ar draws y Deyrnas Unedig yn wynebu problemau recriwtio sy’n cael effaith ar ddarparu gwasanaethau ac yn achosi problemau cyflenwi. Mae effeithiau’r rhain ar dueddiadau yn y tymor canolig a’r tymor hir yn ansicr ar hyn o bryd.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

Er bod y diwydiant **twristiaeth** lleol yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, mae'n fregus. Gallai cynlluniau **adfywio a arweinir gan ddiwylliant/natur** gynnig cyfleoedd pwysig i gymunedau yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Mae **diwydiannau diwylliannol a chreadigol** yn debygol o fod wrth galon adfywio, gan ddatblygu capasiti sectorau diwylliannol, creadigol, twristiaeth a lletygarwch y ddwy sir. Gall diwydiannau **digidol** gyfrannu at hyn. Mae'n bwysig nodi effaith bosibl twf mewn twristiaeth ar seilwaith, gan gynnwys tai.

*Mae amaethyddiaeth, twristiaeth a lletygarwch yn sectorau allweddol ar draws y ddwy sir.*

*Yng Nghonwy, mae'n ymddangos mai'r sectorau a gafodd eu taro waethaf yn ystod Covid-10 oedd y sectorau twristiaeth a lletygarwch ac maent wedi bod yn cael trafferth recriwtio staff ers iddynt ailagor. Mae'r sector gofal (yn y ddwy sir) yn faes arall sy'n cael trafferth recriwtio staff erbyn hyn ac sy'n wynebu argyfwng.*

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mae digwyddiadau diwylliannol a chymunedol yn cael eu hystyried yn ffyrdd da o gysylltu pobl, gan harneisio'r ymdeimlad cynyddol o ysbryd cymunedol a dod â bywyd i'r trefi a phentrefi. Dywedodd pobl wrthym hefyd ei bod yn bwysig defnyddio, gwarchod a hyrwyddo ein safleoedd diwylliannol i gynyddu twristiaeth yn y siroedd. Mae twristiaeth yn cael ei hystyried yn gyswllt allweddol i gefnogi'r economi leol fel ei bod yn gallu wynebu heriau Covid-19 a Brexit. Mae pobl wedi pwysleisio pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a sicrhau bod gwersi Cymraeg ar gael yn yr ysgolion ac yn y cymunedau.

Mae llawer o bryderon ynglŷn â'r economi leol ac mae pobl yn teimlo'n gryf iawn y dylid annog pobl i siopa'n lleol. Roedd parcio am ddim yn awgrym poblogaidd, ynghyd â chynnig bwyd ffres, lleol, fforddiadwy. Roedd pobl o'r farn bod angen rhoi mwy o gymorth i siopau a busnesau lleol ar y stryd fawr er mwyn eu helpu i oroesi a dod yn fwy deniadol. Mynegwyd pryderon ynglŷn â chyfradd trosiant uchel siopau'r stryd fawr a'r ffaith bod llawer o siopau yn wag. Roedd pobl eisiau gweld prif strydoedd yn cael eu cynnal yn well, ynghyd â siopau o ansawdd da.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol: "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol"; "Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu."; ac "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl."

# Teithio a thrafnidiaeth sy'n cefnogi lles ehangach

## Y sefyllfa yn awr a'r duedd i'r dyfodol

Yn benodol **trafnidiaeth lanach a gwyrddach. Bydd capasiti ffyrdd** yn parhau i fod yn destun pryder. Mae effaith diffyg darpariaeth **trafnidiaeth gyhoeddus integredig** yn enwedig mewn cymunedau ymylol a gwledig yn parhau i fod yn heriol. Mae cysylltiadau pwysig â **thwristiaeth** (trafnidiaeth gynaliadwy, seilwaith gwefru cerbydau trydan a theithio llesol). Mae hyrwyddo llwybrau **teithio llesol** a llwybrau diogel i'r ysgol yn cael eu hystyried yn atebion pwysig. Bydd lefel perchnogaeth ceir yn parhau yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig oherwydd daearyddiaeth y ddwy sir a materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus integredig. Bydd sicrhau bod seilwaith ar gael i gefnogi'r newid i gerbydau allyriadau hynod o isel yn bwysig.

Bydd symud i ffwrdd o'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat yn gofyn am newid o ran diwylliant diwylliannol neu **newid moddol**.

*Mae pobl yn pryderu'n benodol am deithio llesol, traffig a'r defnydd o'r ffyrdd o amgylch Llanelwy a Llangollen.*

*Yng Nghonwy mae cynaliadwyedd llwybrau bysiau lleol yn destun pryder i drigolion lleol yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig. Ers y pandemig mae pobl yn teimlo'n fwy pryderus ynglŷn â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus felly bydd hyn yn cael effaith ar ddod o hyd i swyddi/dal gafael ar swyddi.*

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mynegwyd pryderon ynglŷn ag argaeledd a chynaliadwyedd trafnidiaeth mewn gwaith ymgysylltu gyda'r cyhoedd a swyddogion yr asiantaethau cyhoeddus ym mhob sir. Daeth yr adborth hwn yn benodol gan bobl ifanc a phobl sy'n diffinio eu hunain fel aelodau o'r 'dosbarth gweithiol'.

Mae teithio llesol wedi bod ar frig yr agenda i'r cyhoedd gan eu bod eisiau gweld mwy o lwybrau cerdded a beicio i bentrefi a threfi cyfagos. Yn ogystal â gwella'r gwaith cynnal ar y llwybrau hyn, cyfeiriwyd at welliannau eraill fel rhagor o fannau i gloi/storio beiciau, rhagor o feinciau, tapiau dŵr, toiledau a gwell arwyddion. Ystyrir bod rhai o'r gwelliannau hyn yn annog pobl sydd fel arfer yn gyndyn i gerdded i wneud hynny ac yn galluogi pobl i siopa'n lleol a beicio i'r gwaith, gan gefnogi'r economi a'r amgylchedd ar yr un pryd.

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod eisiau gweld rhagor o bwyntiau gwefru cerbydau trydan a mannau parcio ar draws y sir er mwyn annog rhagor o bobl i droi at gerbydau trydan. At hyn, roedd pobl o'r farn bod angen cynnig dewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

## Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol: "Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.", a "Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt. Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn".

# Seilwaith digidol dibynadwy, diogelwch ar-lein a phrofiadau rhithiol soffistigedig

## Y sefyllfa yn awr a'r duedd i'r dyfodol

Mae'n debygol y bydd ardaloedd **daearyddol 'di-gyswllt'** yn parhau i fodoli ac y bydd gwelliannau yn yr ardaloedd hyn yn araf. Mae Conwy ymhlith y deg awdurdod lleol lle ceir y ddarpariaeth isaf gan yr holl weithredwyr ar gyfer gwasanaeth 4G yn yr awyr agored ar

draws y Deyrnas Unedig.[7] Mae'n bosibl y byddwn yn gweld mwy o **dlodi data**. Mae diffyg darpariaeth yn tanseilio amcanion economaidd ac nid yw'n beth da mewn perthynas â thwristiaeth. Dros y pum neu'r deng mlynedd nesaf, gellid ystyried bod pobl sy'n derbyn gwasanaeth llai na 100 mbps yn cael eu 'gadael ar ôl'.

Yn y tymor hwy, bydd pobl yn chwilio am **brofiadau ar-lein/rhithrealiti soffistigedig** ar draws y byd, yn enwedig wrth i ni addasu i ganlyniadau newid hinsawdd. Bydd bod yn ddilys ac yn unigryw yn hollbwysig i wneud y profiadau hyn yn hwyliog, yn foddhaus ac yn werth chweil.

Mae **diogelwch ar-lein a chamwybodaeth** (*infodemics*) yn bryder i gymunedau a gwasanaethau ill dau.

Mae **rheoli data personol** yn debygol o barhau i fod yn fater mwy sensitif. Bydd pobl yn chwilio am wybodaeth gredadwy, ddibynadwy a thryloyw a bydd y gallu i ddod o hyd i'r wybodaeth honno ar unwaith yn werthfawr iawn. Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn ceisio dod o hyd i ragor o ffyrdd newydd a gwell i gynnig eu gwasanaethau yn rhithiol.

*Mae rhannau o Ddyffryn Dyfrdwy, y pentrefi i'r gorllewin a'r dwyrain o dref Dinbych ac ardaloedd gwledig Elwy mewn perygl mawr o gael eu gadael heb ddarpariaeth.*

*Fel y nodwyd mae problemau â'r ddarpariaeth yng Nghonwy ac mae rhai o'r pentrefi llai eisoes wedi cael eu gadael heb ddarpariaeth.*

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mae pobl wedi dweud wrthym pa mor bwysig yw cael mynediad at wasanaeth band eang da, yn enwedig ffeibr-llawn, oherwydd y symudiad i ddysgu a gweithio o'r cartref yn ystod y pandemig. Roedd eraill am sicrhau nad dulliau digidol yn unig a ddefnyddir i gysylltu â phobl yn y dyfodol gan fod cyfran o'r boblogaeth yn dal ddim yn defnyddio rhai llwyfannau ac mae'n bosibl na fyddant yn derbyn gwybodaeth bwysig.

[7] OfCom. (2019). *Cysylltu'r Gwledydd. Adroddiad Cymru*. [Cysylltu'r Gwledydd 2019 (ofcom.org.uk)] Cyrchwyd 26 Gorffennaf 2021.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

Byddai rhieni hefyd yn hoffi cymorth ym maes diogelwch ar-lein gan fod plant yn defnyddio'r rhyngrwyd o oed iau ac ar gyfer amrywiaeth ehangach o weithgareddau.

Ar sail ein gwaith ymgysylltu â grwpiau nad ydynt yn aml yn cael eu clywed, dywedwyd wrthym fod allgáu digidol yn broblem i gymunedau lle mae anfantais ieithyddol, diwylliannol neu gymdeithasol yn bryder cyffredin. Mae pryderon hefyd nad yw rhai pobl yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i fynychu sesiynau ymgysylltu ar-lein oherwydd rhwystrau cymdeithasol neu ieithyddol.

### Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys nifer o ymrwymiadau ond nid yw'r un ohonynt yn cyfeirio'n benodol at seilwaith digidol, profiadau ar-lein neu ddiogelwch ar-lein. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol "Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu".

## Heneiddio a heneiddio'n dda

### Y sefyllfa yn awr a'r duedd i'r dyfodol

Mae ein poblogaeth yn dal i **heneiddio**. Mae'n bosibl y byddwn yn gweld rhai newidiadau o ganlyniad i Covid-19 ond mae'n rhy gynnar i ddweud eto (e.e. bydd pobl iau a theuluoedd yn cael eu denu i'r ardal, neu byddant yn penderfynu aros, ond gallai hyn arwain at godi prisiau tai).

Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n wynebu **problemau yn gysylltiedig ag oedran**. Mae **disgwyliadau oes gwell** hefyd yn golygu bod pobl ag anghenion cymhleth yn byw'n hirach nag erioed o'r blaen, ac mae hyn yn rhywbeth i'w ddathlu fel llwyddiant gwelliannau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gynnal y cynnydd hwn yn y galw, ynghyd â darparu cymorth i ofalwyr di-dâl.

Mae cynaliadwyedd rhai gwasanaethau yn dibynnu ar gydnerthedd parhaus **gofalwyr di-dâl**: petai'n rhaid i bobl dalu am ofal yn hytrach na derbyn cymorth gan ofalwyr di-dâl, byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y sector gofal cymdeithasol ac iechyd.

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

*Yn Sir Ddinbych, ardaloedd gwledig y sir ac yn enwedig Prestatyn, mae cyfraddau uchel iawn o bobl hŷn (dros 65 oed) gan olygu bod effaith salwch sy'n gysylltiedig ag oedran yn debygol o fod yn fwy amlwg yma nag mewn ardaloedd eraill.*

*Mae strwythur oedran poblogaeth Conwy yn hŷn nag un Cymru a Phrydain. Mae'r ganran o bobl dros 65 oed ar ei huchaf yn ardaloedd gogledd, canolbarth a dwyrain Sir Conwy. Mae'r ardal ddwyreiniol yn destun pryder penodol gan fod mwy o bobl hŷn yn byw mewn tai cymdeithasol ac mae hyn yn dangos nad ydynt mor gyfoethog. Mae ymchwil yn dangos y byddant yn dioddef mwy o afiechyd gan olygu y bydd angen mwy o adnoddau ar gyfer pobl hŷn o'r fath.*

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn dymuno gweld rhagor o gymorth i'r henoed. Yn benodol, maent o'r farn y dylai mwy o weithgareddau ganolbwyntio ar leihau unigedd ac y dylid cynnal gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau y dangoswyd eu bod yn gallu cael effaith gadarnhaol.

Mynegodd pobl eu cariad a'u hymrwymiad at grwpiau cymunedol wrth iddynt gysylltu cymunedau a phobl o bob oed. Mae pobl eisiau gweld mwy o gefnogaeth i sefydlu grwpiau o'r fath a sicrhau eu bod yn aros yn hyfyw drwy gael cyfleusterau addas a fforddiadwy.

## Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol: "Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel"; "Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddolebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi". "Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed"; ac "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol."

# Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

## Trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb (y bwlch lles)

### Y sefyllfa yn awr a'r duedd i'r dyfodol

**Mae'n ymddangos mai tlodi yw achos sylfaenol anghydraddoldeb lles**. Yn benodol, y berthynas gysylltiedig â ffactorau fel iechyd gwael iawn, bod yn anabl, yn ddi-waith, diffyg addysg neu addysg sylfaenol iawn, bod yn sengl, wedi gwahanu, yn ŵr/gwraig weddw neu wedi ysgaru, rhentu neu bod yn ganol oed. Mae pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig nid yn unig yn marw yn gynt, maent hefyd yn treulio llai o'u hoes mewn iechyd da. Er bod disgwyliad oes wedi cynyddu yn gyffredinol, nid yw'r bwlch rhwng yr amser y bydd pobl yn mwynhau iechyd da yn yr ardaloedd mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn dangos unrhyw arwydd ei fod wedi lleihau yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Mae gennym ardaloedd â chrynodiadau uchel o **amddifadedd lluosog** gan gynnwys rhai rhannau o'r Rhyl a Dinbych Uchaf yn Sir Ddinbych; a rhai rhannau o Bensarn, Bae Colwyn, Llandudno a Llysfaen yn Sir Conwy. Er nad yw cydnerthedd hirdymor grwpiau â lles personol a rhagolygon llai ffafriol yn amlwg ar hyn o bryd, heb ymyrraeth, mae rhai cymunedau bach yn debygol o barhau i fyw â ffactorau sy'n gysylltiedig ag '**amddifadedd hirsefydlog'**. Mae Gorllewin y Rhyl 1, Gorllewin y Rhyl 2 a De Orllewin y Rhyl 2 wedi'u nodi gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fel ardaloedd o amddifadedd 'hirsefydlog'.

Mae dirywiad economaidd yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar y bobl fwyaf agored i niwed. Rydym yn disgwyl y bydd **anghydraddoldebau yn mynd yn waeth** ("**bwlch lles**") yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Disgwylir y bydd yr anghydraddoldebau hyn yn cynnwys: gwahaniaeth o ran canlyniadau addysg, sgiliau a chyflogaeth; poblogaeth hŷn mewn iechyd gwaeth ac iechyd a lles gwael yn gyffredinol. Mae problemau yn ymwneud â lles yn debygol o fod yn waeth i bobl sy'n wynebu anfantais economaidd neu bobl â nodweddion gwarchodedig.

Mae pobl â'r **nodweddion gwarchodedig** canlynol yn fwyaf tebygol o fyw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) yng

Nghymru, ac, mewn rhai achosion, maent yn fwy tebygol hefyd ddweud bod ganddynt lefelau lles personol gwaeth:[8]

- Benywod
- Pobl ifanc
- Pobl sengl
- Pobl anabl
- Pobl LGBTQ+
- Pobl â ffydd Mwslimaidd
- Pobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (ac yn enwedig pobl o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chefndiroedd ethnig cymysg neu luosog, neu Arabaidd).

Mae llesiant **pobl anabl** yn fwy tebygol o fod yn is ar draws nifer o ffactorau (maent yn fwy tebygol o fyw mewn tai rhent, o wynebu anfantais sosio-economaidd, o fod angen gwasanaethau cyhoeddus neu ofal personol, ac maent yn fwy tebygol o fod wedi wynebu unigedd neu unigrwydd dwys). Mae effaith negyddol anghymesur Covid-19 ar bobl anabl wedi arwain unwaith yn rhagor at gondemnio'r pwyslais a roddir ar y model meddygol o anabledd, yn hytrach na'r model cymdeithasol o anabledd sy'n fwy perthnasol a derbyniol. Mae'r bwlch cyflogaeth ymhlith pobl anabl wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diweddar, er bod dadansoddiad yn dangos bod y bwlch wedi lleihau mwy yn achos menywod na dynion. Mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd bod gweithio o'r cartref yn gwneud gwaith yn fwy hygyrch i bobl anabl (a phobl draws hefyd).

Roeddem wedi gweld gwelliant yn flaenorol ar draws amrediad o ddangosyddion cyrhaeddiad yng Nghonwy a Sir Ddinbych a oedd wedi lleihau'r bylchau hanesyddol rhwng y siroedd hyn a Chymru. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y **bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol** yn mynd yn fwy. Ar lefel facro, mae'r plant a'r bobl ifanc hynny yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn debygol o ddod o gefndiroedd tlotach: mae gwrywod; plant o gefndir Du, Asiadd a Lleiafrifoedd Ethnig, plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau a

[8] ONS, Set data poblogaeth a chymuned pobl 2017

phlant agored i niwed ymhlith y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf o ran eu haddysg. Bydd hyn yn cael effeithiau hirdymor ar eu cynnydd addysgol, eu perfformiad yn y farchnad lafur a'u lles.

Mae pawb yn deall y cysylltiad rhwng **profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** a chanlyniadau gwael fel oedolion, a gall y canlyniadau (iechyd meddwl gwaeth, ffordd o fyw sy'n effeithio ar iechyd a lles) arwain at les is na'r cyfartalog. Nid ydym yn gwybod beth fydd effaith Covid-19 ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod eto ond credir y bydd yn destun pryder mawr.

*Yn Dinbych Uwch a Henllan, mae lefelau diweithdra yn uwch, mae incwm aelwydydd yn is ac mae canlyniadau iechyd ac addysg yn waeth. Yn holl wardiau ardal Prestatyn mae'r cyfraddau o'r boblogaeth sy'n anabl neu sydd â salwch hirdymor cyfyngus yn uwch nag yn Sir Ddinbych, Cymru neu Lloegr.*

*Mae lefelau incwm aelwydydd ym mhob ardal yng Nghonwy, ac eithrio un, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae cyfradd diweithdra uwch yn ardaloedd Colwyn ac Abergele, lle mae cyfradd uchel o dai cymdeithasol sy'n dangos yr ardaloedd sy'n cyd-fynd â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.*

## Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym

Mae fforwm lleisiau cymunedol rhyngweithiol, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2021, er mwyn rhoi llais i grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, wedi dangos pa mor bwysig yw sicrhau y gall amrediad eang o gymunedau fynegi eu hunain ar bob lefel. Dywedwyd wrthym fod angen i gyfleoedd ymgysylltu fod yn fwy cynhwysol ar gyfer pobl sy'n gweithio ac yn byw mewn cymunedau gwledig, neu sy'n teimlo'n anghyfforddus neu'n ddihyder i fynychu sesiynau ar-lein oherwydd rhwystrau cymdeithasol neu ieithyddol. Mae ymddiriedaeth a hyder yn hollbwysig. Mae angen i ni gydweithio hefyd i sicrhau nad ydym yn llethu'r cymunedau hyn â cheisiadau niferus am yr un wybodaeth, neu gwybodaeth debyg, a'n bod yn adrodd yn ôl iddynt am y camau a gymerwyd ar sail eu hymgysylltiad.

Mae pobl yn poeni am dlodi plant, a'r graddau y mae'r sector cyhoeddus yn gweithio i wella ansawdd bywyd pobl a phlant sy'n byw mewn tlodi. Mae newyn plant yn destun

pryder penodol i bobl gan eu bod eisiau deall prif achos y newyn. Mae pobl hefyd eisiau i ni ofyn i'r bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig pa bethau fyddai'n gwella eu bywydau. Mae digartrefedd yn cael ei ystyried yn ffactor sy'n achosi amddifadedd ynghyd ag ansawdd tai. Mae pobl wedi dweud bod perthynas achosol rhwng tai gwael a disgwyliad oes byrrach.

Cafodd pobl ag anableddau, gan gynnwys pobl ag anawsterau dysgu a phobl hŷn, eu henwi fel pobl y dylid rhoi cymorth iddynt, yn benodol er mwyn gwneud iddynt deimlo'n llai unig. Roedd pobl o'r farn y gellid creu cysylltiadau rhwng y cenedlaethau drwy gael pobl ifanc i wirfoddoli i helpu pobl hŷn. Cyfeiriwyd at rai problemau hygyrchedd sy'n effeithio ar bobl ag anableddau, yn benodol ar safleoedd celfyddydol, diwylliant a threftadaeth ac un o'r awgrymiadau oedd y dylid ystyried system sgorio adeiladau cyhoeddus o ran pa mor hygyrch ydynt i bobl anabl, a fyddai'n gweithio mewn ffordd debyg i system sgorio hylendid bwyd.

### Blaenoriaethau cenedlaethol

Mae Rhaglen Lywodraethu Cymru yn cynnwys yr ymrwymiadau canlynol: "Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel"; "Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi". "Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed"; "Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math"; ac "Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol".

## Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym maes iechyd a lles

### Y sefyllfa yn awr a'r duedd i'r dyfodol

Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa o ran iechyd a lles yng Ngogledd Cymru yn dilyn llwybr cwbl gadarnhaol. Mae'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd a **lles gwael yn gwaethygu** yn hytrach na gwella ac mae'r defnydd o **ofal cymdeithasol ac iechyd yn cynyddu** ac nid yn lleihau.

## Asesiad o Les Lleol: Crynodeb Gweithredol

Mae ymchwil y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi amlygu'r **tri grŵp sy'n fwyaf tebygol o fod â lles personol gwael**: pobl ddi-waith neu anweithgar sy'n rhentu eu cartrefi ac sydd â phroblemau iechyd neu anabledd y maent yn eu datgan eu hunain; pobl gyflogedig sy'n rhentu ac sydd â phroblemau iechyd neu anabledd y maent yn eu datgan eu hunain; a pherchnogion tai wedi ymddeol y mae ganddynt broblemau iechyd neu anabledd y maent yn eu datgan eu hunain.

Un her allweddol sy'n wynebu'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yw ymdrin â'r oedi a achoswyd gan bandemig Covid-19. Bydd yn cymryd peth amser i 'ddal i fyny'. At hyn, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y galw am gymorth **iechyd meddwl** yn benodol (yn cynnwys **iechyd meddwl plant a phobl ifanc**), wedi cynyddu ymhellach yn dilyn cyflwyno mesurau pellhau cymdeithasol a chyfyngiadau eraill ar fywydau pobl ers mis Mawrth 2020. Mae profiadau pandemig Covid-19 wedi codi llawer o gwestiynau heb eu hateb ynglŷn â'r dyfodol.

Mae data'r cyfrifiad yn dangos bod nifer mawr o bobl yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn darparu **gofal di-dâl** ac mae'r niferoedd yn llawer mwy na'r hyn y mae'r darparwyr iechyd a gofal yn gwybod amdanynt.[9]

Mae achosion o **bwysau geni isel** yn rhai o ardaloedd mwyaf dirwasgedig y ddau awdurdod lleol yn destun pryder. Mae **beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau**, lle rydym wedi gweld rhywfaint o welliant yn dal i fod yn destun pryder oherwydd y cysylltiad â chanlyniadau iechyd gwael i'r fam a'r baban.

Rydym yn gwybod bod yr **amgylchedd ffisegol** yn chwarae rhan allweddol ym mywyd pobl; cysylltir iechyd gwael â digartrefedd, llety o ansawdd gwael a thlodi tanwydd. Yn yr un modd, mae tlodi, diweithdra a diogelwch personol, oll yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol unigolion. Mae cael mynediad at **fannau agored** yn bwysig.

Mae **anghydraddoldeb iechyd** yn yr ardal. O blith holl feysydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, roedd y nifer mwyaf o ardaloedd yn y Rhyl yn y 10% o ardaloedd mwyaf

[9] Ar gael o Wefan Cydweithredol Gogledd Cymru

difreintiedig ym maes iechyd; mae hyn yn dangos yn glir y berthynas rhwng anfantais sosio-economaidd ac iechyd a lles.[10] Mae pobl sy'n byw mewn tlodi parhaus mewn perygl o gael iechyd meddwl a chorfforol gwael; ac mae plant, yn enwedig, yn wynebu risg uwch o gael problemau iechyd meddwl, o fod yn ordew a chael salwch hirdymor.

- Mae disgwyliad oes pobl sy'n byw yn yr ardaloedd ym mhumed rhan mwyaf difreintiedig Bwrdeistref Sirol Conwy neu Sir Ddinbych nid yn unig yn fyrrach, maent hefyd yn treulio llai o'u hoes mewn iechyd da o'u cymharu â'r rheini sy'n byw yn y pumed rhan lleiaf difreintiedig.
- Mae gwahaniaeth o 12 mlynedd yn nisgwyliad oes iach gwrywod yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Sir Ddinbych o'i gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig (y bwlch mwyaf ar gyfer Cymru gyfan), a 6.5 blynedd yn achos menywod. Y bwlch yn achos dynion yng Nghonwy yw 6.9 blynedd a 5.2 yn achos menywod.[11]

Er bod disgwyliad oes wedi gwella'n gyffredinol, nid yw'n ymddangos bod y bwlch rhwng **cyfran yr oes y disgwylir y bydd pobl yn mwynhau iechyd da** yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi lleihau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Mae cysylltiad hefyd rhwng y duedd hirdymor sy'n dangos cynnydd yng nghyfran y bobl sydd **dros eu pwysau neu'n ordew** a'r cynnydd mewn problemau iechyd cronig a allai gael effaith ar ddisgwyliadau oes iach yn y dyfodol.

Mae sgil-effeithiau **Covid-19** yn benodol wedi cael effeithiau arwyddocaol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, a'u lles yn fwy cyffredinol. O ganlyniad i Covid-19 rydym eisoes wedi gweld **anghydraddoldebau yn cael eu gwaethygu** (gan fod pobl ag anableddau neu bobl Ddu, Asiaidd a Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o farw o Covid-19) ac mae'r anghydraddoldebau iechyd hyn yn debygol o barhau yn y tymor canolig a'r tymor

---

[10] Cyngor Sir Ddinbych (2020). *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: Canlyniadau'r Rhyl.* Adroddiad heb ei gyhoeddi.

[11] Ffynhonnell: 'Gap in life expectancy at birth between the most and least deprived fifth, 2015 to 2017. Public Health Wales Observatory, using PHM & MYE (ONS), WHS & WIMD 2014' (Llywodraeth Cymru)

hir. Mae ‘Covid hir’, y term a ddefnyddir i ddisgrifio symptomau parhaus Covid-19, yn debygol o ychwanegu at yr anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli yn yr un modd â Covid-19 ei hun.

Mae pryderon penodol ynglŷn ag **unigedd cymdeithasol ac unigrwydd** ymhlith pobl ifanc a phobl hŷn yn y ddwy sir.[12] Mae natur wledig ardaloedd y ddau awdurdod lleol yn golygu bod mynediad at wasanaethau yn wael yn y ddwy sir o safbwynt teithio a thrafnidiaeth. Rydym hefyd yn gwybod am ardaloedd a grwpiau o bobl nad oes ganddynt fynediad da at dechnoleg ddigidol, a gall hyn hefyd gyfrannu at unigedd cymdeithasol. Bydd y cysylltiadau rhwng unigedd ac iechyd wedi cael eu gwaethygu gan bandemig Covid-19.

Er bod mwy o ddarpariaeth yn nhermau **gofal iechyd digidol**, mae pryder cynyddol eisoes ac mae pobl yn dymuno cael ymgynghoriadau wyneb yn wyneb unwaith yn rhagor.

Nid yw rôl a dylanwad camwybodaeth (**newyddion ffug**) a’r effaith ar ein gallu i fodloni amcanion iechyd cyhoeddus a dinesig ehangach yn eglur ar hyn o bryd.

## Yr hyn y mae pobl wedi’i ddweud wrthym

Mae pobl yn pryderu ynglŷn â’r ffaith bod iechyd meddwl oedolion a phlant yn gwaethygu. Mae ymwybyddiaeth o’r pwysau a’r oedi sy’n wynebu’r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, ac mae pobl am weld mwy o uwchsgilio i fynd i’r afael â phroblemau recriwtio.

Cafodd yr angen i gefnogi ffyrdd iach o fyw ei godi fel un o bryderon pobl yn lleol, yn enwedig mewn perthynas â’r angen i fynd i’r afael â’r argyfwng gordewdra, drwy gynnig rhagor o gyfleoedd hamdden, addysg, gweithio mewn partneriaeth a thrwy adeiladau ar ein rhwydwaith teithio llesol. Mae pobl yn cydnabod bod tlodi yn gyfrifol am iechyd gwael ac ymddygiad iechyd gwael ac un enghraifft a roddwyd yn ystod y broses ymgysylltu oedd y ffaith bod cost gweithgareddau chwaraeon ffurfiol yn rhwystr i bobl ar incwm isel. Mae

[12] Mae’r data yn dangos bod dwywaith gymaint o oedolion ifanc yn dweud eu bod yn unig o’u cymharu â phobl hŷn. Canran y bobl sy’n unig yn ôl oedran a rhyw (llyw.cymru)

pobl wedi pwysleisio pwysigrwydd ysgolion a phrofiadau cynnar eraill i siapio iechyd da ac ymddygiad iach.

Mae teithio llesol wedi bod ar frig yr agenda i'r cyhoedd gan eu bod eisiau gweld mwy o lwybrau cerdded a beicio i bentrefi a threfi cyfagos. Yn ychwanegol at hyn, mae pobl yn dymuno gweld y llwybrau presennol yn cael eu cynnal, eu goleuo'n dda a'u cadw'n rhydd rhag sbwriel a llystyfiant. Mae mannau agored a gweithgareddau yn yr awyr agored yn bwysig iawn i'r cyhoedd hefyd ac maent eisiau sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn hygyrch ac yn cael eu cynnal fel llwybrau natur, campfeydd awyr agored a pharciau.

Roedd mynediad i dai fforddiadwy o ansawdd da yn flaenoriaeth uchel i'r cyhoedd drwy gydol ein proses ymgysylltu. Roedd pobl o'r farn bod diffyg stoc tai ac nad yw prisiau tai a llety rhent bellach yn fforddiadwy i lawer o bobl. Mae pobl eisiau gweld rhagor o dai cymdeithasol yn cael eu darparu i bobl sydd mewn angen yn y gymuned.

### Blaenoriaethau cenedlaethol

